At 09:41 on Thursday 5th December, the yellow warning for wind was updated and an amber warning for wind issued covering coastal areas and part of Powys for Saturday 7th December.

At 10:09, the Met Office advisor issued an updated advice, which was followed by a further yellow warning for rain and notice of an increased risk of flooding was issued in the Flood Guidance statement. At 15:45, Natural Resources Wales issued a collated synopsis of anticipated flooding forecasts to partners.

From 15:53 onwards on the afternoon/evening of Thursday 5th December, a series of flood alerts for the rivers Severn, Tawe, Wye and Usk were issued with these turning to Flood Warnings for the Vyrnwy.

On the morning of Friday 6th December, the Met Office advisor joined a regular scheduled teleconference of Civil Contingencies and other Local Resilience Forum partners. The advisor warned of the imminent issue of a red warning for wind which would come into effect from 03:00 on Saturday 7th. The red warning and an updated amber warning were both issued at 09:41. At 10:50 a further amber warning for rain was issued. These increased warnings triggered multi-agency pre-emergency assessment teleconferences (PEAT) which, during the course of the response, became both Tactical and Strategic Coordinating Groups. Alongside those multi-agency meetings, a separate internal series



of Team meetings and communications ensured that the Local Authority response was appropriate managed and communicated.

On the evening of Friday 6th, flood alerts were again issued for the Tawe, the Usk, the Upper Severn and Dyfi catchments. These were followed the following morning from 05:41 onwards with a string of Flood warnings along the Severn, the Vyrnwy, Wye, and Usk. Powys sat outside of the red warning area but was nevertheless impacted severely. The impact of the wind brought down trees across the County, cutting off communities, blocking roads, damaging infrastructure and power lines. In turn the loss of power impacted communication systems including mobile telephony and police communications. Power cuts left many homes and businesses without power.

At 08:48 on Saturday 7th, the Flood warning was issued for the Usk from Brecon to Glangwynne which initiated the activation of the Crickhowell pumps. However subsequent to that, the gauges on the River Usk at Crickhowell went offline meaning that river levels had to be observed in person. This fell to the Community Flood Group in Crickhowell. Unfortunately, access to the town was impossible due to fallen trees and it took several hours for those to be cleared sufficiently to get the pumps into place. Parts of the town were once again prepared for evacuation.

In the north of the County the River Severn overtopped its banks at Llandrinio, but this did not result in any flooding to properties. In the centre of the County the River Wye burst its banks at Builth Wells causing extensive flooding in residential properties and businesses at Llanelwedd. Flooding was again averted in Crickhowell.

Attention then turned to the issue of those affected by power cuts. Working through the Local Resilience forum the power companies were asked to share their Priority Service Registers with local authorities, as there were potentially thousands of vulnerable customers who could not be contacted. There were some difficulties with this, and reasons put forward why it could not happen including GDPR. Eventually some details were shared allowing colleagues from Powys Teaching Health Board, via their District Nurses, and Social Care, via their social workers and commissioned services, to carry out welfare checks, either in person, by phone or via authorised named carers.

On the evening of Sunday 8th December, Powys County Council established two warm spaces at its leisure centres in Welshpool and Brecon in order to provide support to those who may need it. Three persons attended the Brecon centre, none of whom were identified as needing further support. The scheme was extended to all leisure centres on Monday 9th during normal opening hours. Again, take up was very low.

## Heledd Fychan

Aelod o'r Senedd dros  
Ganol De Cymru

—  
Member of the Senedd for  
South Wales Central

## Senedd Cymru /Welsh Parliament

Swyddfa Ranbarthol / Regional Office  
2 High Street Pontypridd, CF37 1QJ  
Heledd.Fychan@senedd.cymru  
[senedd.cymru/Heledd Fychan](mailto:senedd.cymru/Heledd Fychan)

01443 853214 


**Dyddiad: 16.2.2025**

Annwyl Gadeirydd,


Diolch yn fawr am eich llythyr yn cadarnhau y byddwch yn cynnal ymchwiliad i lifgoydd. Rwyf yn falch iawn o glywed y bydd y gwaith hwn yn mynd rhagddo, a byddwn yn falch iawn o gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig pe bydda'i hynny yn bosibl neu'n briodol.

Gwn hefyd bod trigolion lleol, effeithwyd gan Storm Dennis a Storm Bert, yn awyddus iawn i gyfrannau a rhannu eu profiadau gyda Aelodau o'r Senedd. Os bydd yn fwriad gennych gynnal grwp ffocus neu sesiwn gyda y rhai effeithwyd gan lifogydd, byddwn yn hapus iawn i'ch rhoi mewn cysylltiad gyda nhw.

Yn gywir,



Heledd Fychan AS



Llyr Gruffydd AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

4 Mawrth 2025

## Annwyl Llyr Gruffydd AS

Ysgrifennaf atoch mewn ymateb i gais y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith i Trafnidiaeth Cymru (TrC) am dystiolaeth ysgrifenedig fel rhan o'ch ymchwiliad i Storm Bert a Storm Darragh a'r effaith a gawsant.


Mae ein rheilffordd yng Nghymru yn wynebu heriau unigryw o effeithiau newid yn yr hinsawdd, a stormydd Bert a Darragh ar ddiwedd 2024 oedd y rhai mwyaf diweddar i achosi tarfu mawr ar y rhwydwaith. Yn hanesyddol, adeiladwyd rhannau o'r rhwydwaith er mwyn cysylltu cymunedau sydd ger afonydd er mwyn gallu caniatáu i symud pobl a nwyddau o'r afon i'r tir. Yn hyn o beth, gall y rhwydwaith fod yn agored iawn i lifogydd a symudiadau daear yn sgil tywydd eithafol.

Yn TrC mae gennym gyfrifoldeb i sicrhau bod ein rhwydwaith trafniadaeth yn ddiogel i'n cydweithwyr a'n cwsmeriaid, a'i fod yn addas i addasu i'r peryglon yn y dyfodol y gall ein hinsawdd newidiol ei achosi. Mae'r gwaith rydym yn ei wneud i drawsnewid ein rhwydweithiau trafniadaeth yng Nghymru yn mynd y tu hwnt i fanteision cerbydau, gorsafoedd ac amserlenni newydd. Rydym yn trawsnewid y rhwydwaith i sicrhau cydnherthedd, lleihau tarfu a chadw pobl i symud.

Er bod digwyddiadau tywydd eithafol blaenorol yng Nghymru, fel Storm Dennis yn 2020, wedi llywio ein cynllunio a'n hymateb yn fawr, rydym yn gwella ein gwybodaeth a'n gallu yn barhaus ar gyfer ymgorffori cydnherthedd ac addasu i'r hinsawdd ar draws Rhwydwaith TrC. Mae hyn yn ein galluogi i amddiffyn ein hasedau yn well rhag difrod a lleihau ein gwasanaethau yn wynebu tarfu difrifol. Felly, yn y llythyr hwn, byddaf yn dangos tystiolaeth o'r ymdrechion a wnaeth ein timau i baratoi ar gyfer stormydd Bert a Darragh, i leihau eu heffaith ar ein seilwaith a'r tarfu a achoswyd i'n cwsmeriaid.

## Paratoi ar gyfer Storm a'i Effaith

Digwyddodd Storm Bert a Storm Darragh, yn y drefn honno, o Ddydd Gwener 22 Tachwedd – Dydd Llun 25 Tachwedd 2024 a Dydd Gwener 6 Rhagfyr – Dydd Sadwrn 7 Rhagfyr 2024. Er bod effaith y stormydd a'r camau y gwnaethom eu cymryd i darfu cyn lleied â phosibl ar ein rhwydwaith trafniadaeth yn wahanol ar gyfer y ddau ddigwyddiad, roedd y ffordd yr aethom ati i baratoi ac i ymateb i rybuddion gan y Ddesg Dywydd yn unol â'n protocolau safonol pan ragwelir tywydd eithafol yr un peth.




Mewn achosion lle rhagwelir stormydd a enwir, sydd â'r potensial i achosi effaith sylweddol, y weithdrefn arferol yw i gynrychiolwyr TrC fynychu Tele-gynadleddau Gweithredu Tywydd Eithafol rheolaidd (EWAT). Cynhelir EWAT gan y rheolwr seilwaith, naill ai Amey Infrastructure Wales (AIW) ar gyfer y rhwydwaith CVL neu Network Rail ar gyfer rhwydwaith ehangach Cymru a'r Gororau. Maent yn rhoi cyfle i reoli paratoadau a chydnerthedd cyn digwyddiadau tywydd garw. Rhennir gwybodaeth o'r Ddesg Dywydd a rhagolygon cyffredinol y Swyddfa Dywydd i lywio'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch mesurau rhagofal.

Yn y ddau achos, dechreuodd ein cydweithwyr fynychu EWAT pwrpasol tua 72 awr cyn i'r stormydd daro'r rhwydwaith. O'r EWAT, nodwyd bod Storm Bert wedi'i chategoreiddio fel storm eithafol, gyda hyd at 70mm o law yn cael ei ragweld yn disgyn ar draws y Rhwydwaith CVL, a bod rhybudd tywydd coch wedi'i gyhoeddi ar gyfer Storm Darragh gyda gwyntoedd mor gyflym ag 80mya yn cael eu rhagweld mewn ardaloedd lle'r oedd ein llinellau uchaf a mwyaf agored, fel arfordir y Gogledd-orllewin. Yn ogystal â'r EWAT, gwnaethom hefyd fynychu galwadau wrth gefn sifil ehangach, lle dechreuwyd fforymau cydnerthedd lleol, er mwyn ategu gwybodaeth leol a rhannu ein cynlluniau gweithredol gyda rhanddeiliaid. Roedd yr wybodaeth a gasglwyd yn y cyfarfodydd hyn a'r EWAT yn ein galluogi i ddechrau cynllunio ein hymateb mewn cydweithrediad â phartneriaid yn y diwydiant, gan gynnwys Network Rail, i sicrhau bod ein cydweithwyr a'n cwsmeriaid yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf ac, yn bwysicaf oll, eu bod yn ddiogel wrth deithio ar ein rhwydwaith yn ystod y cyfnodau hyn.

#### *Storm Bert*

Yn achos Storm Bert, gwnaeth TrC y penderfyniad i atal gwasanaethau ar reilffyrdd Dyffryn Conwy a Chalon Cymru ddydd Sadwrn 23 Tachwedd a dydd Sul 24 Tachwedd, cyn i'r storm daro'r rhwydwaith. Er ein bod yn cydnabod y tarfu y gall cau'r llinellau hyn ei achosi i deithwyr, mewn achosion fel hyn, ein nod yw cydbwysu rhedeg gwasanaethau â'n blaenoriaeth allweddol sef sicrhau diogelwch ein cydweithwyr, ein cwsmeriaid a'r rhwydwaith trafniadaeth. Rhagwelwyd y byddai, mewn rhai rhannau o Gymru, gan gynnwys Gogledd Cymru, hyd at 80mm o law yn disgyn a gwyntoedd cryfion o 60mya neu fwy, a gweithredwyd ar yr wybodaeth hon yn unol â hynny.

Yn anffodus, profodd y rhwydwaith rheilffyrdd ledled y DU effeithiau difrifol oherwydd Storm Bert, gyda chyflyrau cenllifol yn effeithio ar linellau ledled Cymru. Er gwaethaf ein mesurau rhagofalus, achosodd glawiad eang darfu ar nifer o'r llinellau gan gynnwys lein y Gororau, lein Glynebwy (rhwng Llanhilleth a Glynebwy) a rhannau o'r rhwydwaith CVL i'r gogledd o Radur. Cafodd llawer o ardaloedd ar hyd y llwybrau hyn eu boddi o dan ddŵr a olygai nad oeddem yn gallu rhedeg gwasanaethau nes bod y dŵr wedi cilio a bod y gwiriadau diogelwch angenrheidiol ar waith i ailagor y llinellau (gan gynnwys profi llwybrau, gosod cyfyngiad cyflymder dros dro a chynnal archwiliadau asedau). Gweithiodd cydweithwyr TrC a Network Rail yn eithriadol o galed i gael y rhwydwaith rheilffyrdd yng Nghymru a'r Gororau yn ôl ar waith, fodd bynnag, roedd effaith Storm Bert ar ein seilwaith yn golygu bod gwasanaethau ar y llinellau hyn yn destun canslo ac oedi yn ystod yr wythnos ganlynol tra cynhaliwyd yr ymdrech fawr hon.



Er bod gwasanaethau a seilwaith rheilffyrdd wedi cael eu heffeithio ledled Cymru a'r Gororau, effeithiwyd yn arbennig ar ein hasedau oedd yn eiddo i ni ar y rhwydwaith CVL gan y storm. Er enghraifft, roedd llifogydd mewn ardaloedd fel Aberdâr ac Aberpennar, yn Rhondda Cynon Taf, yn golygu bod llawer iawn o falurion wedi aros ar y cledrau wedi i'r dŵr gilio a oedd yn gohirio ailagor y llinellau CVL i'r gogledd o Radur tra bo gwaith glanhau ar y gweill. Achosodd dyfroedd uchel a chyflym Afon Taf i falurion gael eu gwrthio yn erbyn ac o dan ddec Traphont Pentyrch, i'r de o Ffynnon Taf, a achosodd ddifrod i reilen law'r strwythur. Oherwydd hyn, gwnaethom weithredu cyfyngiad cyflymder rhagofalus 5mya dros y bont nes i'r coed mawr gael eu symud ac ni wnaeth archwiliad manwl o'r strwythur a gadarnhawyd a gafodd ei ddifrodi effeithio ar gapasiti strwythurol cyffredinol y bont.

Er na ragwelwyd i ba raddau y byddai Storm Bert yn effeithio ar seilwaith y CVL, bydd gwersi a ddysgwyd o'r digwyddiad hwn a'r data yr oeddem yn gallu eu casglu yn cyfrannu at wella ein gwybodaeth a'n gallu i ymgorffori cydnerthedd ac addasu i'r hinsawdd ar draws ein hasedau. Er enghraifft, er mwyn ategu ein proses o ragweld, rhagolygu a rhybuddio mewn achosion o ddigwyddiadau tywydd eithafol, mae TrC wedi sefydlu sawl gorsaf dywydd i ddeall patrymau tywydd yn well ar draws y rhwydwaith CVL. Mae daearyddiaeth unigryw Cymoedd De Cymru yn cyfrannu at fodolaeth microhinsawdd, ac felly mae gwahanol leoliadau'r gorsafoedd hyn yn caniatáu ymateb mwy effeithiol yn ystod tywydd eithafol.


Mae ein gorsafoedd tywydd yn monitro patrymau tywydd lleol gan gynnwys glaw, gwyntoedd cryf, lleithder a gwres. Mae'r data a gesglir o'n gorsafoedd monitro tywydd yn ein helpu i ddatblygu ein dealltwriaeth o sut a ble y gallai digwyddiadau tywydd eithafol amlygu ar draws ein rhwydwaith yn y dyfodol. O ganlyniad, byddwn yn datblygu mesurau cydnerthedd ac addasu priodol i leihau'r effeithiau ar ddiogelwch a pherfformiad gweithredol ein hasedau a'n gwasanaethau. Felly, defnyddir y data a gesglir gan y gorsafoedd tywydd hyn yn ystod stormydd, fel storm Bert, i bennu'r patrymau tywydd sy'n debygol o achosi'r tarfu mwyaf ar wasanaethau ar y CVL fel y gellir rhoi mesurau rhagofalus priodol ar waith.

Wrth i ni wella ein dealltwriaeth, gallwn amddiffyn ein hasedau yn well rhag difrod a lleihau difrifoldeb, amllder a hyd y tarfu ar y gwasanaeth y gall tywydd eithafol ei achosi. Er bod ein timau wedi gweithio'n eithriadol o galed yn dilyn Storm Bert, bydd y sylfaen dystiolaeth hon yn galluogi ein tîm Rheoli Asedau i wneud penderfyniadau yn gyflymach a phenderfyniadau mwy gwybodus o ran diogelu a chynnal ein hasedau hanfodol.

### *Storm Darragh*

Yn achos Storm Darragh, gwnaethom y penderfyniad ymlaen llaw i atal yr holl wasanaethau trenau i'r gorllewin o Gaerfyrddin o 9.00pm ddydd Gwener 6 Rhagfyr yn dilyn rhagolygon o wyntoedd cryf hyd at 90mya a glaw trwm iawn. Fe wnaethom hefyd newid llwybrau a chanslo gwasanaethau penodol lle bo hynny'n briodol. Rhoddwyd mesurau rhagofalus pellach ar waith ar gyfer dydd Sadwrn 7 Rhagfyr, yn sgil gwybodaeth gan Met Desk ac yn unol â'r rhybudd 'perygl i fywyd' a gyhoeddodd Llywodraeth y DU, yn cynnwys:

- Cyfyngu cyflymder i 50mya ar bob llinell
- Atal gwasanaethau TrC rhag teithio trwy'r dydd ar linell Dyffryn Conwy, Caer - Lerpwl Lime Street a lein Calon Cymru




- Atal gwasanaethau rhwng Cyffordd Llandudno - Caergybi, Machynlleth - Aberystwyth/Pwllheli a Chaerfyrddin – Doc Penfro/Aberdaugleddau/Abergwaun tan 11.30 am
- Lleihau gwasanaethau ar hyd Lein y Gororau.

Fodd bynnag, er gwaethaf ein paratoadau ar gyfer effeithiau Storm Darragh a chydweithio'n agos â Network Rail, esblygodd y sefyllfa a gweithredwyd mesurau adweithiol ychwanegol gennym er mwyn sicrhau diogelwch ein cydweithwyr, ein cwsmeriaid a'r rhwydwaith ymhellach. Felly, dros nos ddydd Gwener 6 Rhagfyr, penderfynwyd atal gwasanaethau TrC ar draws De Cymru gyfan nes y gellid cynnal prawf ar y llwybrau a bod y llwybrau hyn yn cael eu hystyried yn glir i wasanaethau redeg arnynt y bore canlynol.

Yn ystod y ddau ddiwrnod, achosodd y gwyntoedd a'r glaw uchel iawn ar draws y rhwydwaith ddiffyg cyflenwad pŵer, coed yn cwmpo ar y llinell a llifogydd. Arweiniodd hyn at darfu eang ar y rhwydwaith a theimlwyd yr effeithiau unwaith eto'r wythnos ganlynol wrth i ddifrod gael ei asesu a gwaith atgyweirio angenrheidiol gael ei wneud. Wrth i'r amodau lacio, y flaenoriaeth i TrC a Network Rail ddydd Sul 8 a dydd Llun 9 Rhagfyr oedd rhoi prawf ar y llwybrau ac agor pob llwybr mor gyflym ac mor ddiogel â phosibl. Erbyn bore Llun, roeddem wedi adfer y rhan fwyaf o'n gwasanaethau ar Brif Linell De Cymru, i'r dwyrain o Abertawe, ar lwybrau Bro Morgannwg a'r CVL.

Roedd sawl gwasanaeth yn effeithio ar ddigwyddiadau ar y seilwaith rydyn ni'n berchen arni ar y CVL gan gynnwys coed wedi cwmpo ar y Cyfarpar Llinellau Uwchben (OLE) a malurion ar y trac. Roedd yr un yn wir yn ystod Storm Bert. Roedd ein tîm Rheoli Asedau yn cadw llygad barcud ar ein hasedau seilwaith, dros neu gerllaw cyrsiau dŵr mawr (gan gynnwys pontydd, cwlfertau, gwrthgloddiau, traciau ac ati). Roedd hyn er mwyn sicrhau bod effaith lefelau dŵr a'r malurion oedd wedi casglu yn cael ei leihau cymaint â phosibl. Yn ystod y ddwy storm, gwnaethom ddefnyddio gwylwyr ar y safle a dyfeisiau monitro cyflwr o bell i asesu effeithiau llifogydd ar ein seilwaith yn barhaus. Bydd y data hwn a'r gwersi a ddysgwyd yn cael eu defnyddio ochr yn ochr â data a gasglwyd gan ein gorsafoedd tywydd i lywio ein cynlluniau cadernid seilwaith a buddsoddiad yn y dyfodol ar gyfer y CVL.

Achoswyd her ychwanegol a wynebwyd gan gydweithwyr TrC yn ystod Storm Darragh gan y rhybudd brys a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU a gyhoeddodd rybudd coch gan gynghori pobl Cymru a'r Gororau i 'beidio â theithio os yn bosibl' a 'pheidio â gyrru' oherwydd y sefyllfa. Fel y gallwch ddeall, cafodd hyn effaith ar ein lefelau staffio ddydd Sadwrn 7 Rhagfyr gan gynyddu'r pwysau ar weithrediadau. Fodd bynnag, llwyddodd y rhan fwyaf o gydweithwyr i deithio i'r gwaith yn ddiogel a dim ond ychydig o orsafoedd oedd gyda llai o staff na'r arfer. Er y cynhaliwyd cyfarfodydd mewnol gyda chydweithwyr i roi sicrwydd a diweddariadau ar wasanaethau wrth baratoi ar gyfer Storm Darragh, rydym wedi adolygu ein Gweithdrefn Tywydd Niweidiol ers hynny gan roi ffocws penodol ar rannu negeseuon mewnol i gydweithwyr ynghylch teithio i'r gwaith yn ddiogel ond hefyd ar bwysigrwydd darparu gwasanaeth hanfodol yn y digwyddiadau hyn.



## **Effaith ar Gwsmeriaid a Chymunedau**

### *Cyfathrebu â Chwsmeriaid*

Un o'n blaenoriaethau allweddol yn ystod tywydd eithafol fel stormydd Bert a Darragh yw ein bod yn cyfleu'n glir y tarfu ar wasanaethau a chyingor teithio i'n cwsmeriaid. O ran y ddwy storm, buom yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn Network Rail gan gyhoeddi datganiadau ar y cyd i sicrhau bod ein negeseuon yn gyson ac yn gytbwys ar draws ein platfformau. Gwnaethom hefyd ymgysylltu â Chwmnïau Gweithredu Trên eraill (TOC), gan gynnwys Great Western Railway (GWR) a'r rhai dros y ffin, fel bod yr holl weithredwyr yn cael gwybod ynghylch defnyddio tocynnau, derbyn tocynnau a Gwasanaethau Bws yn Lle Trên (RRS).

Yn ogystal â rhannu diweddariadau rheolaidd gyda chyfryngau lleol a rhanbarthol, fe wnaethom hysbysu cwsmeriaid am newidiadau i wasanaethau trwy ein sianeli sefydledig y gwyddom eu bod yn cael eu defnyddio'n gyson gan gwsmeriaid i ddod o hyd i wybodaeth. Roedd hyn yn cynnwys:

- Arddangos baner tarfu melyn ar wefan TrC ac eicon ar ap TrC.
- Rhannu diweddariadau amser real ar ein gwefan Gwirio Taith.
- Rhannu diweddariadau amser real yn yr adran 'Gwybodaeth Fyw' ar ap TrC.
- Felly, dros nos ddydd Gwener 6 Rhagfyr, penderfynwyd atal gwasanaethau TrC ar draws De Cymru gyfan nes y gellid cynnal prawf ar y llwybrau a'u bod yn cael eu hystyried yn glir i wasanaethau redeg y bore canlynol.
- Cyflwyno cyhoeddiadau mewn gorsafoedd, yn awtomatig mewn gorsafoedd heb staff a chyhoeddiadau awtomatig a rhai byw mewn gorsafoedd sydd â staff.
- Lanlwytho graffeg a datganiadau sy'n symleiddio'r newidiadau i'r gwasanaeth ar ein tudalennau cyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â rhannu manylion â chwsmeriaid a chysylltu swyddi â chynllunwyr teithiau.
- Cyhoeddi diweddariadau i randdeiliaid allweddol a grwpiau cymunedol i'w hysbysu cyn gynted ag y cadarnheir yn weithredol fel y gallant hysbysu eu cymunedau.
- Cydweithwyr rheng flaen yn ein gorsafoedd i ddarparu cyfathrebiadau a chyhoeddiadau gan reolwyr trenau ynghylch unrhyw newidiadau i deithiau.

Adlewyrchwyd ein negeseuon ar wefan ac ap National Rail Enquiries gyda Baner tarfu coch a diweddariadau amser real ar eu Cynlluniwr Taith ar-lein.

Yn ystod y ddau ddigwyddiad, y prif nod ar gyfer ein cyfathrebiadau i gwsmeriaid oedd cyhoeddi cyngor teithio amgen cyn gynted ag y cadarnhawyd newidiadau i wasanaethau. Er enghraifft, yn ystod Storm Bert cyhoeddwyd neges 'cofiwch wirio cyn teithio' fel bod cwsmeriaid yn ymwybodol o newidiadau posibl i'w teithiau ac i ganiatáu amser ychwanegol i deithio oherwydd difrod i lwybrau allweddol. Wrth i'r sefyllfa newid, gallai ein tîm rheoli ddiweddarau ein negeseuon digidol ar ein sianeli allweddol mewn amser real. Yn ystod Storm Darragh gwnaethom gyhoeddi hysbysiad yn hysbysu cwsmeriaid na allant deithio gyda ni ar bob llinell heblaw am linellau Treherbert, Merthyr ac Aberdâr cyn gynted ag yr oeddem o'r farn bod angen, ac roedd amodau'r rheilffyrdd/ffyrdd yn golygu nad oedd hi'n bosibl i redeg gwasanaethau ar ddydd Sul 7 Rhagfyr. Mewn achosion fel hyn, rydym yn gwneud ein gorau i helpu cwsmeriaid i gwblhau eu taith cyn belled ag y bo modd a'u cynghori ymlaen llaw os rhagwelir storm ac i ddisgwyl tarfu. Os yw cwsmeriaid yn dal i





ddewis teithio, rydym yn ymateb i'r sefyllfa wrth iddi ddatblygu a phan nad yw hi' ddiogel i redeg gwasanaeth, rydym yn cynghori'r cwsmeriaid hyn na allant barhau i deithio gyda ni.

Gwnaethom gyhoeddi 49 o negeseuon i gyd ar y cyfryngau cymdeithasol ar ein cyfrif @tfwrail ar X (Twitter gynt) ynghylch rhybuddion o gau a tharfu ar linellau oherwydd Storm Bert, a 31 o negeseuon ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol ar X yn ystod Storm Darragh. Yn ystod y ddwy storm, gwelsom gynnydd cyflym yn nifer o gwsmeriaid oedd yn cysylltu â ni a'r mwyafrif o ymholiadau cyfryngau cymdeithasol yn deillio o WhatsApp ac X, gan dderbyn 294 o negeseuon yn ystod Storm Bert a 617 o negeseuon yn ystod Storm Darragh. Yn ogystal, mae ein tîm Cysylltiadau Cwsmeriaid yn amcangyfrif ein bod wedi derbyn tua 700 o ymholiadau gan gwsmeriaid yn ystod Storm Bert a 600 o ymholiadau gan gwsmeriaid yn ymwneud â Storm Darragh. Yn bennaf, ymholiadau oedd y rhain am ad-daliad ac oedi oherwydd effaith perfformiad a achoswyd gan y tarfu. Gellir gweld crynodeb o ffigurau effaith perfformiad y ddwy storm yn y tablau isod:

| <b>Effaith ar Berfformiad o ganlyniad i Storm Bert (22-25 Tachwedd 2024)</b> |       |
|------------------------------------------------------------------------------|-------|
| <b>Cyfrif Digwyddiad</b>                                                     | 87    |
| <b>Oedi - Munudau</b>                                                        | 1,756 |
| <b>Nifer y gwasanaethau a ganslwyd yn llwyr</b>                              | 4     |
| <b>Canslo rhannol</b>                                                        | 11    |
| <b>Canslo ymlaen llaw</b>                                                    | 113   |


| <b>Effaith ar Berfformiad o ganlyniad i Storm Darragh (6-9 Rhagfyr)</b> |       |
|-------------------------------------------------------------------------|-------|
| <b>Cyfrif Digwyddiad</b>                                                | 103   |
| <b>Oedi – Munudau</b>                                                   | 3,724 |
| <b>Nifer y gwasanaethau a ganslwyd yn llwyr</b>                         | 824   |
| <b>Canslo rhannol</b>                                                   | 115   |
| <b>Canslo ymlaen llaw</b>                                               | 120   |

#### *Effeithiau ar Grwpiau Cymunedol*

Yn ogystal â cheisio lleihau'r effaith ar ein cwsmeriaid, rydym hefyd yn teimlo ei bod yn bwysig cefnogi ein cymunedau a'n cymdogion yn wyneb y dinistr a achosir gan dywydd eithafol fel stormydd Bert a Darragh. Yn benodol, yn ystod y cyfnod o law trwm a llifogydd yn ystod Storm Bert, roeddem yn teimlo ei bod yn hanfodol helpu'r rhai o'n cwmpas i ymdopi â'r sefyllfa.

Mae ein pencadlys - Llys Cadwyn - wedi'i lleoli yng nghanol tref Pontypridd, a oedd yn un o'r ardaloedd yr effeithiwyd arni waethaf yn Ne Cymru yn ystod Storm Bert. Effeithiwyd ar lawer o eiddo a busnesau gan lifogydd o Afon Taf, yn ogystal â Pharc Coffa Rhyfel Ynysangharad sydd wedi'i leoli'n uniongyrchol ar draws yr afon o'r swyddfa. Fel rhan o'r ymdrech lanhau yn dilyn y dinistr, gwirfoddolodd nifer o staff TrC i lanhau Lido a Chlwb Bowlio Pontypridd.





Bu ein gwirfoddolwyr hefyd yn helpu gyda'r gwaith glanhau yng Ngardd Gymunedol a Choetir Meadow Street Cyngor Tref Pontypridd, yn Nhrefforest, ac Organics yng Nghwm Cynon, dau grŵp cymunedol yr oeddem eisoes wedi'u cynorthwyo yn y gorffennol gyda chyllid Effaith Gymunedol i wella eu safleoedd. Yn ogystal â threfnu gwirfoddolwyr i helpu, fe wnaethom hefyd ddarparu rhywfaint o gyllid ychwanegol i'r ddau grŵp i allu prynu planhigion a chyflenwadau a ddinistriwyd.

Yn TrC, rydym yn credu'n gryf mewn gwneud y peth iawn a chefnogi'r cymunedau yr ydym yn rhan ohonynt a'u helpu i ffynnu. Felly, aethom ati i geisio creu cyfleoedd i helpu'r rhai o'n cwrdd i ddod dros effaith ddinistriol y stormydd.

### **Cydnherthedd ac Addasu i'r Newid yn yr Hinsawdd**


Er mwyn cynyddu ein hymateb i risgiau hinsawdd, rydym wedi datblygu Cynllun Addasu a Chydnherthedd Hinsawdd cynhwysfawr (CARP) i ddarparu cyfeiriad strategol a llywodraethu. Ei nod yw sicrhau bod cydnherthedd yn yr hinsawdd yn cael ei ymgorffori mewn asedau newydd, rhaglenni cynnal a chadw a phrosesau gwneud penderfyniadau. Eir ati i lunio'r CARP, a gyhoeddwyd yn 2023, gan ddefnyddio tystiolaeth o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys polisi a deddfwriaeth Cymru fel Deddf Amgylchedd (Cymru) 2015 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ers cyhoeddi ein CARP yn 2023, rydym wedi dechrau cyflawni yn erbyn ein hymrwymiaidau i addasu i'r newid yn yr hinsawdd. Er enghraifft, rydym yn cynnal asesiadau risg penodol ar gyfer newid yn yr hinsawdd ar gyfer ein hasedau, llwybrau a chyfleusterau allweddol er mwyn rhoi cyfrif am effeithiau newid yn yr hinsawdd. Defnyddir y canfyddiadau hyn i lunio mesurau lliniaru i sicrhau ein bod yn cynnal safon uchel o ddiogelwch a gwasanaeth i'n cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid allweddol. Dyma enghreifftiau o rai o'r mesurau:

- Amserlenni cynnal a chadw rhagweithiol a monitro cyflwr
- Cynllunio ar gyfer tywydd garw a gweithredu mesurau rheoli angenrheidiol
- Penodi contractwyr i ymweld â safleoedd yr effeithir arnynt i wneud gwaith cynnal a chadw a gwaith trwsio brys ar unrhyw safleoedd ac asedau TrC y mae llifogydd a stormydd yn effeithio arnynt.

Yn benodol, yn sgil y gwersi a ddysgwyd o ganlyniad i stormydd blaenorol, gan gynnwys Storm Dennis yn 2020, rydym yn ymgorffori ein dull o wrthsefyll ac addasu newid yn yr hinsawdd. Rydym yn adolygu effeithiau digwyddiadau tywydd eithafol ar ein gwasanaethau, ein hasedau a'n rhwydwaith i ystyried unrhyw gyfleoedd i leihau graddfa'r effeithiau pan fydd digwyddiadau tebyg yn digwydd eto. Mae hyn yn cynnwys cydlynu ein dull o wrthsefyll y tywydd gydag awdurdodau lleol (ac awdurdodau rheoli risg eraill) i sicrhau bod eu gweithdrefnau cynllunio brys yn adlewyrchu'n gywir unrhyw risgiau i gymunedau a thrydydd parti eraill o fewn ffiniau tir a rennir.

Tynnodd y difrod a'r tarfu a achosodd Storm Dennis sylw at y ffaith bod angen paratoi ar gyfer digwyddiadau canlyniadau tebygolrwydd-uchel isel mewn byd ble mae'r hinsawdd yn newid. Ers hynny, rydym wedi rhoi ar waith nifer o nodweddion yn ein strategaeth cydnherthedd tywydd yn seiliedig ar y gwersi rydym wedi'i dysgu. Mae'r rhain yn cynnwys sefydlu mwy o systemau monitro tywydd ar asedau CVL (fel mesuryddion glaw), gwella ein draeniad wrth ymyl y trac i leihau'r risg o lifogydd dŵr wyneb ar ein traciau ac yn agos atynt,



**TRAFNIDIAETH  
CYMRU  
TRANSPORT  
FOR WALES**

3 Llys Cadwyn  
Pontypridd,  
CF37 4TH,  
029 2167 3434  
James.price@trc.cymru  
[trc.cymru](http://trc.cymru)

3 Llys Cadwyn  
Pontypridd  
CF37 4TH  
029 2167 3434  
james.price@tfw.wales  
[tfw.wales](http://tfw.wales)

yn ogystal â monitro cyflwr ein hasedau. Rydym hefyd yn cyfrif am ddigwyddiadau tywydd anffafriol wrth gynllunio ar gyfer trafniadaeth ac yn ymdrechu i leihau'r amser adfer yn dilyn digwyddiad.

Rydym hefyd yn defnyddio gwersi o'r digwyddiadau tywydd anffafriol hyn i adeiladu ein gwybodaeth weithredol o sut mae risgiau hinsawdd ffisegol yn effeithio ar ein rhwydwaith rheilffyrdd. Mae hyn yn llywio ein dull o asesu risg newid yn yr hinsawdd ac amserlennu teithiau ar gyfer ein hasedau a'n gwasanaethau ar lwybrau allweddol. Mae'n allweddol ein bod yn canolbwyntio ein hymdrechion ar sicrhau ein bod yn paratoi'n briodol pe bai digwyddiadau tebyg yn digwydd eto. Mae ein dull yn cynnwys cynnal a chadw asedau rhagweithiol, gweithdrefnau cynllunio brys, a chynlluniau wrth gefn a rennir gyda rhanddeiliaid allweddol. Yn ogystal â hyn, rydym yn adeiladu sylfaen o dystiolaeth gref i lywio strategaeth fuddsoddi yn yr hirdymor tuag at fesurau cydnerthedd ac addasu hinsawdd fwy cadarn ledled ein rhwydwaith.

Rwy'n gobeithio eich bod chi ac aelodau'r Pwyllgor yn cadw'n dda ac y bydd y dystiolaeth rwyf wedi'i darparu o gymorth i chi gyda'ch ymchwiliad i effaith Storm Bert a Storm Darragh yng Nghymru. Os hoffech i mi ymhelaethu ymhellach ar unrhyw un o'r pwyntiau a nodir uchod neu os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso mawr i chi gysylltu.

Cofion cynnes,

James Price  
Prif Weithredwr / Chief Executive

Huw Irranca-Davies AS

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y  
Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion  
Gwledig

3 Chwefror 2025

Annwyl Huw,

### Gwaith craffu Cyfnod 1 y Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru)

Diolch am eich llythyr diweddar yn rhoi rhagor o wybodaeth mewn perthynas â'r Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru).

Mae'r Pwyllgor yn dod at ddiwedd y gwaith o gasglu tystiolaeth ynghylch y Bil. Er ein bod yn gwerthfawrogi y byddwch yn rhoi tystiolaeth i ni ym mis Mawrth, mae nifer o faterion allweddol yr hoffem i chi roi sylw iddynt cyn hynny er mwyn helpu i hwyluso'r gwaith craffu.

#### *Bygythiadau i'r amgylchedd*

Mae'r drefn newydd a gynigir yn y Bil yn canolbwyntio ar atal bygythiadau i les pobl a allai godi o ganlyniad i ansefydlogrwydd tomenni nas defnyddir.

1. Pam nad yw'r drefn newydd yn ymestyn i fygythiadau i'r amgylchedd a allai godi o ganlyniad i ansefydlogrwydd tomenni nas defnyddir?

#### *Bygythiadau a achosir gan y perygl o lygredd, ymlosgiad a llifogydd*

Roedd adroddiad Comisiwn y Gyfraith yn argymhell y dylid ystyried, wrth ddosbarthu categori risg tomen lo nas defnyddir, y risg bod tomen yn ansefydlog a chanlyniadau methiant o ran sefydlogrwydd. Roedd hefyd yn argymhell y dylid ystyried y risgiau y mae tomenni'n eu hachosi o ran llygredd, ymlosgiad neu lifogydd fel rhan o'r dosbarthiad risg.

O dan y drefn a gynigir yn y Bil, bydd tomenni nas defnyddir yn cael eu categoreiddio yn ôl y graddau y maent yn bygwth lles pobl oherwydd eu hansefydlogrwydd. Bydd asesiad risg yr Awdurdod yn ystyried y peryglon hynny sy'n ymwneud ag ansefydlogrwydd tomenni yn unig, nid risgiau sy'n annibynnol ar y potensial i domen fod yn ansefydlog.

2. A allwch egluro pam yr ydych wedi dewis gwyro oddi wrth argymhelliad Comisiwn y Gyfraith y dylai'r drefn newydd ystyried y risgiau a achosir gan domenni nas defnyddir o ran llygredd, ymlosgiad neu lifogydd?

### *Cymhwyso'r drefn newydd i domenni nad ydynt yn domenni glo*

Mae'r Papur Gwyn ar gyfer y Bil yn dweud:

*"rydym yn bwriadu ystyried yn y dyfodol a ddylid ehangu cwrmpas y gyfundrefn newydd arfaethedig i bob tomen sborion nas defnyddir, pan fo hynny'n briodol. Er mwyn helpu i wireddu'r nod hwnnw, byddwn yn ceisio pennu llinell sylfaen o ran faint o domenni nad ydynt yn domenni glo sydd i'w cael ledled Cymru, a byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu ffordd o weithio a fydd yn caniatáu inni gasglu'r wybodaeth berthnasol (perchenogaeth, statws) am y tomenni hynny mewn ffordd amserol."*

Gofynnodd am farn ar y cynnig y byddai'r fframwaith rheoleiddio newydd "yn gymwys i bob tomen lo nas defnyddir ond bod potensial i domenni nad ydynt yn domenni glo gael eu cynnwys yn raddol wrth i dystiolaeth ddod i law am niferoedd, lleoliadau a phwy sy'n berchen arnynt".

O dan y Bil, mae'r drefn newydd yn berthnasol i domenni glo nas defnyddir a thomenni nad ydynt yn domenni glo. Nodir fel a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

*"Bydd yr Awdurdod yn canolbwyntio'n gyntaf ar domenni glo segur... Unwaith y bydd y rhan fwyaf o'r tomenni glo segur wedi'u hasesu a, lle y bo'n briodol, wedi'u hychwanegu at y drefn lawn, bydd yn ystyried tomenni nad ydynt yn rhai glo".*

Yn ôl y Memorandwm Esboniadol:

*"amcangyfrifir bod 20,000 a mwy o domenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo. O gofio mai prif amcan yr Awdurdod yw sicrhau nad yw tomenni nas defnyddir yn bygwth lles pobl oherwydd eu hansefydlogrwydd (o dan adran 2 y Bil), mae'n fwy tebygol o ganolbwyntio ar y mathau o beryglon a gyflwynir gan domenni glo nas defnyddir, na'r mathau o beryglon a gyflwynir gan domenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo."*

Mae'n amcangyfrif y bydd yr Awdurdod yn dechrau ystyried tomenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo yn 2032-33.

3. A allwch amlinellu eich rhesymeg dros gynnwys tomenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo yn y Bil a chyflwyno'r sail dystiolaeth sy'n cefnogi'r angen i gymhwyso'r drefn newydd i'r tomenni hyn?
4. A allwch egluro a yw'r Bil yn darparu ar gyfer cynnwys tomenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo 'yn raddol' fel rhan o'r drefn newydd dros amser ac fel y bo'n briodol, a sut y mae'n gwneud hynny?
5. Pa ymgysylltiad ydych chi wedi'i gael gyda'r diwydiant chwarela a chloddio (y tu hwnt i ymgynghoriad y Papur Gwyn) i lywio datblygiad y Bil?

### *Diogelwch tomenni nas defnyddir a deddfwriaeth yn ymwneud â'r amgylchedd a chynllunio*

Mae adroddiad Comisiwn y Gyfraith yn nodi nad yw Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomenni) 1969 "wedi'i dylunio i ryngweithio â diogelu'r amgylchedd yn yr oes fodern. Mae'n blaenoriaethu diogelwch y cyhoedd, tra bod deddfwriaeth amgylcheddol yn gosod gofynion sy'n gallu rhwystro gwaith adfer a glanhau". Gwnaeth nifer o argymhellion mewn perthynas â hyn, gan gynnwys bod Llywodraeth Cymru "yn ystyried pa mor ddymunol yw darparu... eithriad rhag unrhyw ofyniad i geisio caniatâd ymlaen llaw o dan ddeddfwriaeth gynllunio neu amgylcheddol".

Mewn ymateb i'r uchod, comisiynodd Llywodraeth Cymru Brifysgol Birmingham i gynnal prosiect i ddarparu trosolwg o ran "lle mae gwrthdaro posibl rhwng diogelwch tomenni a deddfwriaeth amgylcheddol".

6. A allwch chi egluro sut y mae'r Bil yn mynd i'r afael â'r gwrthdaro posibl rhwng diogelwch tomenni nas defnyddir a deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r amgylchedd a chynllunio? Yn benodol, sut y mae'n cysoni'r angen i'r Awdurdod gyflawni gwaith **ar unwaith** i sicrhau sefydlogrwydd tomenni â'r angen i gydymffurfio â deddfwriaeth amgylcheddol a chynllunio?

### *Rôl yr Awdurdod fel ymatebwr brys*

7. Yn 2023, daeth yr Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio (yr Awdurdod Glo gynt) yn ymatebwr categori dau o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004. Pa ystyriaeth ydych chi wedi'i rhoi i gynnwys yr Awdurdod (a sefydlir o dan y Bil) fel ymatebwr categori dau o dan y Ddeddf?

### *Rôl yr Awdurdod yn dilyn methiant o ran tomen*

8. A allwch egluro pa rôl fydd gan yr Awdurdod yn dilyn methiant o ran tomen a sut y mae'r Bil yn darparu ar gyfer hyn?

Mae'r Pwyllgor wedi cael tystiolaeth, yn dilyn y tirlithriad mewn tomen lo nas defnyddir yn Tylorstown, fod swyddogion awdurdod lleol a oedd yn cyflawni gwaith glanhau brys i sicrhau diogelwch y cyhoedd (gan gynnwys cael gwared ar goed a deunydd gwastraff) wedi cael eu rhybuddio am fethu â sicrhau bod ganddynt y trwyddedau amgylcheddol angenrheidiol.



9. Er bod y mater uchod y tu allan i gwmpas y Bil, a allwch egluro a ydych yn bwriadu datrys y tensiynau presennol rhwng gwaith i ddiogelu'r cyhoedd yn sgil methiant tomenni a chydymffurfio â deddfwriaeth amgylcheddol, ac os felly sut?

*Atal bygythiadau i ddiogelwch tomenni*

Roedd y Papur Gwyn yn gofyn barn pobl ynghylch a oes mathau o weithgareddau ar domenni nas defnyddir y gallai fod angen eu gwahardd neu eu rheoli drwy ganiatadau a thrwyddedau.

Dosbarthwyd y gweithgareddau fel a ganlyn: tresmasu a fandaliaeth; gwneud rhywbeth a allai newid cyflwr neu berfformiad domen (e.e. rhywbeth a allai ddadsefydlogi'r domen); a newidiadau o ran defnydd tir.

10. Pam ydych chi wedi dewis peidio â gwneud darpariaeth yn y Bil ar gyfer gwahardd neu reoli gweithgareddau ar domenni nas defnyddir â'r nod o atal bygythiadau i'w sefydlogrwydd?
11. A allwch amlinellu unrhyw gynlluniau sydd gennych (y tu hwnt i'r Bil) i wahardd neu reoli gweithgareddau penodol ar domenni nas defnyddir, gan gynnwys amserlenni?
12. Pa ystyriaeth ydych chi wedi'i rhoi i gynnwys yr Awdurdod fel ymgynghorai statudol ar gyfer ceisiadau cynllunio ar domenni segur neu'n agos atynt?

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon ymateb erbyn 17 Chwefror 2025 fan bellaf.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS,

Cadeirydd, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd, a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.



Ein cyf: PO/HIDCC/0044/25

Llŷr Gruffydd AS  
Cadeirydd  
Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith  
Senedd Cymru  
Bae Caerydd  
Caerdydd  
CF99 1SN

17 Chwefror 2025

Annwyl Llŷr,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 3 Chwefror. Gweler isod fy atebion i'r cwestiynau hynny.

**1. Pam nad yw'r drefn newydd yn ymestyn i fygythiadau i'r amgylchedd a allai godi o ganlyniad i ansefydlogrwydd tomenni nas defnyddir?**

**2. A allwch egluro pam yr ydych wedi dewis gwyro oddi wrth argymhelliaid Comisiwn y Gyfraith y dylai'r drefn newydd ystyried y risgiau a achosir gan domenni nas defnyddir o ran llygredd, ymlosgiad neu lifogydd?**

Ystyriodd Llywodraeth Cymru argymhellion Comisiwn y Gyfraith a'r ymatebion a gafwyd i'r Papur Gwyn yn ofalus. Gan gydnabod bod adnoddau'n gyfyngedig, a chan ein bod am sicrhau bod unrhyw drefn newydd yn gyraeddadwy ac yn llwyddiannus, roedd angen dylunio trefn fwy penodol – un sy'n canolbwyntio ar ansefydlogrwydd tomenni a allai beri bygythiad i les pobl.

Fel y cadarnheais yn fy nhystiolaeth i'r Pwyllgor ym mis Rhagfyr, mae'r diffiniad o 'fygythiad i les pobl' yn cwmpasu materion strwythurol ehangach fel seilwaith ac ynni. Yn yr un modd, credaf y bydd y drefn newydd yn ystyried bygythiadau ehangach i sefydlogrwydd tomen fel y rhai a achosir gan lygredd, ymlosgiad a llifogydd. Mae'r rhain yn ffactorau a fydd yn cael eu hystyried fel rhan o'r prosesau monitro a rheoli, pan fyddant yn berthnasol i ansefydlogrwydd.

Mae fy nhystiolaeth hyd yn hyn wedi dangos yn glir fod y ddeddfwriaeth wedi cael ei chynllunio i weithio ochr yn ochr â deddfwriaeth a systemau amgylcheddol presennol sydd ar waith i ymdrin â bygythiadau amgylcheddol ehangach. Wrth gwrs, mae hynny'n cynnwys rheoliadau, rheolau a phrosesau sydd eisoes ar waith ar gyfer llygredd, ymlosgiad a llifogydd a fyddai'r tu allan i gwmpas y bil hwn.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru)  
[Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales](mailto:Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 94**  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd yn rhaid i'r Awdurdod ystyried materion amgylcheddol, fel bioamrywiaeth, a gweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a phartneriaid statudol eraill i gydymffurfio â deddfwriaeth amgylcheddol ac adlewyrchu a chefnogi blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru fel diogelu'r amgylchedd. Bydd hyn yn cael ei adlewyrchu mewn canllawiau a fydd yn cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n hwyluso'r dull cydweithredol hwn. Er enghraifft, mae'r pŵer eang yn adran 3 o'r Bil yn galluogi'r Awdurdod i ddarparu gwybodaeth, cymorth a chynghor i bartneriaid ynghylch unrhyw fater sy'n ymwneud â thomen neu ynghylch tomenni nas defnyddir yn gyffredinol. Mae Rhan 4 o'r Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â rhannu gwybodaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ac awdurdodau cyhoeddus perthnasol (hynny yw CNC, Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol, Awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru, yr Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio<sup>1</sup> a'r Awdurdod Tân ac Achub ar gyfer ardal yng Nghymru) rannu gwybodaeth sy'n berthnasol i arfer eu gwahanol swyddogaethau.

Rwy'n cydnabod bod angen mynd i'r afael â rhai gwaddolion diwydiannol ehangach yn y tymor hwy, ond nid wyf yn credu mai'r Bil hwn, sy'n canolbwyntio ar faterion penodol, yw'r ffordd gywir o fynd i'r afael â'r materion strategol hyn, ac rwy'n awyddus i ymdrin â'r materion hyn yn rhan o drafodaeth ehangach am ein Gwaddol diwydiannol gyda Llywodraeth y DU.

### **3. A allwch amlinellu eich rhesymeg dros gynnwys tomenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo yn y Bil a chyflwyno'r sail dystiolaeth sy'n cefnogi'r angen i gymhwyso'r drefn newydd i'r tomenni hyn?**

Rwy'n credu ei bod yn bwysig ein bod yn dysgu gwersi'r gorffennol a'n bod yn paratoi ar gyfer pob senario yn y dyfodol.

Rwy'n hynod bryderus nad oes gennym sylfaen dystiolaeth ddibynadwy er mwyn gwneud penderfyniadau am domenni glo nas defnyddir. Rwy'n poeni ein bod yn yr un sefyllfa mewn perthynas â thomenni glo nas defnyddir, ag yr oeddem mewn perthynas â thomenni glo yn dilyn y digwyddiadau yn Tylorstown yn 2020. Dyna pam y gwnaethom ddechrau mapio tomenni glo nas defnyddir, a dyna un o'r rhesymau pam rydym yn cyflwyno deddfwriaeth newydd. Ar hyn o bryd, nid ydym yn gwybod faint o domenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo sydd, ym mha le mae tomenni o'r fath na faint o risg mae'r tomenni hyn yn ei pheri. Nid oes gennym un corff sengl sy'n gyfrifol am reoli a lliniaru'r risgiau hynny. Er bod tomenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo, ar y cyfan, yn peri llai o fygythiad na thomenni glo nas defnyddir, heb os bydd tomenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo lle byddai canlyniadau difrifol yn bosibl os nad yw tomenni o'r fath yn cael eu monitro a'u rheoli'n briodol.

Felly, rwy'n credu ei bod yn synhwyrol ac yn gymesur inni fod yn rhagweithiol, fel y gallwn ganfod, gwerthuso, deall a monitro'r tomenni hyn ar yr adeg gywir a phan fydd adnoddau'n caniatáu. Cymeradwywyd y dull hwn yn ystod yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, pan oedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cefnogi cynnwys tomenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo o fewn cwmpas y Bil.

---

<sup>1</sup> Ar wyneb y Bil cyfeirir o hyd at yr Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio fel yr Awdurdod Glo gan nad yw enw cyffwrdd y sefydliad wedi cael ei newid eto.



Rwy'n awyddus i sicrhau bod gennym gorff sy'n gyfrifol am ymdrin â'r holl domenni nas defnyddir yng Nghymru. Fel arall byddai diffyg goruchwyliaeth a rheoleiddio – a fyddai'n gallu arwain at ansicrwydd ac oedi pe bai argyfwng yn y dyfodol ar domen nas defnyddir nad yw'n domen glo.

#### **4. A allwch egluro a yw'r Bil yn darparu ar gyfer cynnwys tomenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo 'yn raddol' fel rhan o'r drefn newydd dros amser ac fel y bo'n briodol, a sut y mae'n gwneud hynny?**

Mae'r Bil yn gwneud yr Awdurdod yn gyfrifol am fonitro sefydlogrwydd a bygythiadau i sefydlogrwydd yr holl domenni nas defnyddir ar y gofrestr. Yn gam cyntaf tuag at benderfynu a ddylid rhoi tomen nas defnyddir ar y gofrestr, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gynnal asesiad rhagarweiniol o'r holl domenni nas defnyddir yng Nghymru – p'un a ydynt yn domenni glo neu beidio. Mae Adran 13 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod baratoi rhaglen sy'n nodi ei ddull arfaethedig o weithredu ar gyfer gwneud hyn, a'i amserlen arfaethedig ar gyfer y gwaith hwn. Rhaid anfon y rhaglen at Weinidogion Cymru i'w chymeradwyo a rhaid cyhoeddi'r rhaglen hon. Nid yw'n gwneud unrhyw ddarpariaethau ar gyfer cyflwyno cyfrifoldebau'n raddol.

Fodd bynnag, mae'r Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn glir (a bydd canllawiau'n cadarnhau) ei bod yn bwysig bod yr Awdurdod yn blaenoriaethu tomenni glo nas defnyddir i ddechrau, gan eu bod yn debygol o beri bygythiad mwy i les pobl. Y rhagdybiaeth yw, ar yr adeg hon, y bydd gwaith ar domenni nad ydynt yn domenni glo yn dechrau ar ôl chwe blynedd (felly tua 2033), er ei bod yn bwysig nodi y bydd gan yr Awdurdod yr hyblygrwydd i flaenoriaethu unrhyw domen nad yw'n domen glo pe bai'n canfod risg sy'n ymwneud ag ansefydlogrwydd neu fygythiad i les pobl.

Rydym yn amcangyfrif y bydd yr amserlen chwe blynedd yn rhoi amser i'r Awdurdod asesu a monitro'r holl domenni glo nas defnyddir yn briodol a sefydlu systemau cadarn i sicrhau eu bod yn cael eu rheoli'n effeithiol.

#### **5. Pa ymgysylltiad ydych chi wedi'i gael gyda'r diwydiant chwarela a chloddio (y tu hwnt i ymgynghoriad y Papur Gwyn) i lywio datblygiad y Bil?**

Nid yw fy swyddogion wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â'r diwydiant chwarela a chloddio ers yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol o'r cyfraniadau a wnaethant i ymgynghoriad Comisiwn y Gyfraith, yn ogystal â'r ymatebion a gafwyd i'r Papur Gwyn, ac mae'r rhain wedi cael eu hystyried wrth ddatblygu'r Bil.

Bydd fy swyddogion hefyd yn cysylltu â rhanddeiliaid yn ystod hynt y Bil drwy'r Senedd, wrth inni geisio datblygu canllawiau a dogfennau manylach yn y cyfnod cyn y Cydsyniad Brenhinol a ffurfio'r Awdurdod. Gallaf gadarnhau y bydd hyn yn cynnwys cynrychiolwyr o'r diwydiant chwarela a chloddio.

Bydd yn bwysig i'r Awdurdod fabwysiadu dull cydweithredol ac ystyriol wrth weithio gyda'r diwydiannau chwarela a chloddio, gan y bydd angen iddynt gydweithio i weithredu gofynion y drefn newydd, er enghraifft, i ddatblygu cynlluniau rheoli mewn perthynas â safleoedd risg uchel.

**6. A allwch chi egluro sut y mae'r Bil yn mynd i'r afael â'r gwrthdaro posibl rhwng diogelwch tomenni nas defnyddir a deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r amgylchedd a chynllunio? Yn benodol, sut y mae'n cysoni'r angen i'r Awdurdod gyflawni gwaith ar unwaith i sicrhau sefydlogrwydd tomenni â'r angen i gydymffurfio â deddfwriaeth amgylcheddol a chynllunio?**

Mae'r Bil wedi'i gynllunio i weithio ochr yn ochr â'r deddfau a'r rheoliadau presennol, gan gynnwys deddfwriaeth gynllunio ac amgylcheddol. Nid wyf yn credu ei bod yn synhwyrol i'r Bil hwn gynnwys darpariaethau amgylcheddol penodol a allai, o ystyried cymhlethdod ac ehangder y deddfwriaeth amgylcheddol bresennol, wrthdaro â deddfwriaeth sydd wedi cael ei rhoi ar waith at ddibenion penodol, yn enwedig pan fyddwn yn wynebu'r bygythiad a achosir gan newid yn yr hinsawdd.

Mae'r pwerau yn y Bil yn caniatáu i'r Awdurdod weithredu mewn modd rhagweithiol. Bydd cynlluniau rheoli ar gyfer pob tomen nas defnyddir categori 1 a 2 yn cynnwys cynlluniau wrth gefn mewn perthynas â'r hyn a allai ddigwydd mewn argyfwng. Byddant yn cael eu teilwra i'r safle penodol a byddant yn nodi ac yn adlewyrchu risgiau penodol. Er enghraifft, gallai cynlluniau rheoli nodi gweithrediadau untro i gael gwared ar fygythiadau i sefydlogrwydd tomen, neu i leihau'r bygythiadau hynny, megis ailgyfeirio cyrsiau dŵr. Byddent hefyd yn nodi cynllun parodrwydd ar gyfer argyfwng sy'n cynnwys y camau y mae angen eu cymryd pe bai, er enghraifft, tomen sydd ar bwys ffordd yn llithro ac yn peri rhwystr ar y ffordd. Bydd cynlluniau rheoli'n cael eu datblygu gydag CNC ac awdurdodau lleol i sicrhau bod gofynion cynllunio ac amgylcheddol mewn deddfwriaeth arall yn cael eu hystyried cyn yr angen i gymryd unrhyw gamau brys.

Byddai'r cynlluniau'n benodol i domen nas defnyddir unigol. Mae'r gwaith ar y mater hwn eisoes wedi dechrau, ac mae Gweithgor Cydweithredol Llywodraeth Cymru ar Ddiogelwch Tomenni Glo yn datblygu protocol ar y cyd a fydd yn nodi sut bydd sefydliadau partner (fel awdurdodau lleol, CNC a'r Awdurdod) yn ymateb i ddigwyddiad sy'n gysylltiedig â thomen nas defnyddir.

Fel rhan o'r gwaith hwn, mae CNC wedi datblygu cynlluniau safle-benodol wrth gefn ar gyfer tomenni glo: Ystyriaethau Amgylcheddol (Nodyn Cyfarwyddyd) sy'n ymwneud â chynllunio wrth gefn gyda'r nod o leihau effeithiau amgylcheddol o ganlyniad i ddigwyddiad sy'n gysylltiedig â thomen lo.

Felly, gallaf roi sicrwydd i'r Pwyllgor fod gwaith ar y gweill i sicrhau, os bydd digwyddiad sy'n gysylltiedig â thomen nas defnyddir lle mae angen gwaith brys, y bydd lles pobl yn cael ei ddiogelu ond hefyd wrth gynnal y gwaith ystyrir deddfwriaeth amgylcheddol a chynllunio er mwyn rheoli unrhyw wrthdaro.

Dylid cofio hefyd, pe bai digwyddiad difrifol sy'n gysylltiedig â thomen nas defnyddir, y byddai darpariaethau presennol Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 yn gymwys hefyd. Fel y nodir isod, y bwriad yw i'r Awdurdod fod yn Ymatebydd Categori 2 at ddibenion y Ddeddf honno. Gwneir hyn drwy Orchymyn cyn i'r Awdurdod gael ei sefydlu ym mis Ebrill 2027.

**7. Yn 2023, daeth yr Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio (yr Awdurdod Glo gynt) yn ymatebwr categori dau o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004. Pa ystyriaeth ydych chi wedi'i rhoi i gynnwys yr Awdurdod (a sefydlir o dan y Bil) fel ymatebwr categori dau o dan y Ddeddf? Pa ystyriaeth ydych chi wedi'i rhoi i gynnwys yr Awdurdod (a sefydlir o dan y Bil) fel ymatebwr categori dau o dan y Ddeddf?**

Gallaf gadarnhau mai'r bwriad yw i'r Awdurdod fod yn Ymatebydd Categori 2 at ddibenion Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004. Yn unol ag adran 13(2A) o'r Ddeddf honno, mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i ddiwygio Rhan 5 o Atodlen 1 i'r Ddeddf i ychwanegu'r Awdurdod, yn rhinwedd ei rôl fel un o awdurdodau datganoledig Cymru (o fewn ystyr adran 157A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) i'r rhestr o Ymatebwyr Categori 2.

Rhaid i Orchymyn o'r fath gael ei wneud gan Offeryn Statudol, a bydd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Mae adran 14B(2) o'r Ddeddf yn darparu ei bod yn rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â Gweinidog y Goron cyn gwneud Gorchymyn o'r fath.

**8. A allwch egluro pa rôl fydd gan yr Awdurdod yn dilyn methiant o ran tomen a sut y mae'r Bil yn darparu ar gyfer hyn?**

Fel y nodwyd uchod, y bwriad yw y bydd yr Awdurdod yn Ymatebydd Categori 2 o dan y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl. Bydd yr Awdurdod yn cael ei ychwanegu at Ran 5 o Atodlen 1 o'r Ddeddf honno drwy Orchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru.

Os bydd digwyddiad sy'n gysylltiedig â thomen nas defnyddir bydd yr Awdurdod yn gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys awdurdodau lleol, CNC, yr Awdurdod Tân ac Achub perthnasol ac ati i sicrhau bod cymunedau'n cael eu diogelu.

Yn ogystal, fel y nodir uchod, bydd cynlluniau rheoli'n amlinellu trefniadau wrth gefn pe bai digwyddiad yn ymwneud â thomen nas defnyddir. Bydd y cynlluniau rheoli'n nodi sut y bydd yr asiantaethau partner priodol, gan gynnwys yr Awdurdod, yn ymateb i senarios penodol a allai godi mewn perthynas â thomen benodol, a'u rolau priodol wrth ddelio ag unrhyw ddigwyddiad.

**9. Er bod y mater uchod y tu allan i gwmpas y Bil, a allwch egluro a ydych yn bwriadu datrys y tensiynau presennol rhwng gwaith i ddiogelu'r cyhoedd yn sgil methiant tomenni a chydymffurfio â deddfwriaeth amgylcheddol, ac os felly sut?**

Yn unol â'm hymateb i gwestiwn 6 uchod, mae'r Bil wedi cael ei gynllunio i weithio o fewn y system reoleiddio bresennol, gan gynnwys deddfwriaeth amgylcheddol. Bydd cynlluniau rheoli'n cynnwys cynlluniau wrth gefn i helpu asiantaethau partner ymdrin ag unrhyw wrthdaro a allai godi mewn argyfwng rhwng yr angen i ddiogelu lles pobl ac ystyriaethau amgylcheddol.

Hefyd, fel yr amlinellir uchod, mae Gweithgor Cydweithredol Llywodraeth Cymru ar Ddiogelwch Tomenni Glo yn datblygu protocol ar y cyd a fydd yn nodi sut y bydd sefydliadau partner (fel awdurdodau lleol, CNC a'r Awdurdod) yn ymateb i ddigwyddiad sy'n gysylltiedig â thomen nas defnyddir. Unwaith eto, bydd hyn yn cynnwys cynllunio ymlaen llaw ar gyfer achosion lle y rhagwelir y bydd posibilrwydd o wrthdaro rhwng gwaith sy'n ofynnol er mwyn diogelu'r cyhoedd a deddfwriaeth amgylcheddol.

**10. Pam ydych chi wedi dewis peidio â gwneud darpariaeth yn y Bil ar gyfer gwahardd neu reoli gweithgareddau ar domenni nas defnyddir â'r nod o atal bygythiadau i'w sefydlogrwydd?**

**11. A allwch amlinellu unrhyw gynlluniau sydd gennych (y tu hwnt i'r Bil) i wahardd neu reoli gweithgareddau penodol ar domenni nas defnyddir, gan gynnwys amserlenni?**

Gallaf gadarnhau ein bod wedi rhoi cryn ystyriaeth i'r mater hwn, a cheisiodd y Papur Gwyn farn am y mathau o weithgareddau mae rhanddeiliaid yn ystyried y gallai fod angen eu gwahardd neu y gallai fod angen cydsyniad ar eu cyfer.

Nid yw'r Bil yn rhoi pwerau i'r Awdurdod wahardd na rheoli rhai gweithgareddau ar domenni nas defnyddir am y rhesymau canlynol (codwyd materion tebyg gan ymatebwyr i ymgynghoriad y Papur Gwyn):

- Mae amrediad o bwerau – o dan y ddeddfwriaeth cynllunio ac iechyd a diogelwch – sydd eisoes ar gael i awdurdodau lleol, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a CNC i weithredu mewn rhai amgylchiadau. O ystyried ein bod yn annog dull cydweithredol, mae'n bwysig ein bod yn sicrhau nad oes gorgyffwrdd na dryswch rhwng cyfrifoldebau yn y meysydd hyn;
- Bydd y Bil yn caniatáu i'r Awdurdod neu'r perchennog tir weithredu neu geisio cyfraniad gan unrhyw un y mae ei ymddygiad (neu os yw wedi methu gwneud rhywbeth yr oedd yn rhesymol iddo ei wneud), ym marn y llys, wedi achosi neu gyfrannu at yr angen i weithredu ar dir. Bydd hyn yn atal cymryd rhan mewn ymddygiad sy'n niweidiol i sefydlogrwydd tomen nas defnyddir;
- Byddai unrhyw system o gyflwyno hysbysiadau stop yn system dechnegol, a byddai'n golygu cryn dipyn o weinyddu a biwrocratiaeth ychwanegol yn ogystal â pheri dryswch. Gallai defnyddio hysbysiadau stop hefyd achosi oedi, pe bai rhybudd o'r fath yn cael ei herio.

**12. Pa ystyriaeth ydych chi wedi'i rhoi i gynnwys yr Awdurdod fel ymgynghorai statudol ar gyfer ceisiadau cynllunio ar neu yng nghyffiniau tomen segur?**

Ar hyn o bryd rydym yn ystyried a ddylai'r Awdurdod fod yn ymgynghorai statudol neu gael ei hysbysu'n statudol am geisiadau cynllunio, pan fydd cais mewn perthynas â thir ar neu yng nghyffiniau tir y mae tomen nas defnyddir arno. Ar hyn o bryd, byddai'n well gennyf sicrhau bod gan yr Awdurdod bwerau tebyg i'r Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio.

Hoffwn i godi pwynt ychwanegol nad yw'n gysylltiedig â'r cwestiynau a ofynnwyd yn eich llythyr dyddiedig 3 Chwefror. Yn y sesiwn dystiolaeth ar gyfer rhanddeiliaid ar 5 Chwefror bu trafodaeth ynghylch y broses ar gyfer asesiadau rhagarweiniol, y mae'n ofynnol i'r Awdurdod ei chynnal yn rhinwedd adran 13 o'r Bil. Gweler paragraffau 174 – 186 o'r trawsgrifiad. Hoffwn i egluro'r broses honno. Fel y nodir ym mharagraff 49 o'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil, rhagwelir y bydd asesiad rhagarweiniol 'ar ffurf arolwg bwrdd gwaith a fydd yn edrych ar faterion megis uchder a chyfaint tomen nas defnyddir, ei hagosrwydd at dderbynyddion sensitif (megis tai, seilwaith ac ati), unrhyw wybodaeth am hanes y domen a allai fod yn berthnasol i'w sefydlogrwydd ac adroddiadau arolygu neu strwythurol sy'n bodoli eisoes'.

Erbyn i'r Awdurdod fod yn weithredol ym mis Ebrill 2027, rydym yn disgwyl y bydd yr Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio wedi cwblhau ei archwiliadau ffisegol o'r holl domenni glo nas defnyddir yng Nghymru. Bydd yr adroddiadau o'r archwiliadau hynny ar gael i'r Awdurdod pan fydd yn cynnal yr asesiadau rhagarweiniol, fel sy'n ofynnol gan adran 13. Ni ragwelir y bydd archwiliad ffisegol pellach o domenni nas defnyddir yn cael ei gynnal yn ystod y cam asesu rhagarweiniol, er y bydd yr Awdurdod yn gallu gwneud hyn os ystyrir ei fod yn briodol. Ystyrir bod angen archwiliad ffisegol o'r domen yn ystod y cam asesu llawn. Cynhelir asesiad llawn os, yn seiliedig ar asesiad rhagarweiniol, y bydd yn bosibl bod y meini prawf ar gyfer cofrestru tomen yn cael eu bodloni, ym marn yr Awdurdod. Amlinellir y meini prawf ar gyfer cofrestru tomen yn adran 7 o'r Bil. Rwyf o'r farn bod y dull hwn yn taro'r cydbwysedd priodol, a'i fod yn gymesur.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau eraill, mae croeso ichi gysylltu â ni.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd  
a Materion Gwledig

Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Huw Irranca-Davies AS

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid

Hinsawdd a Materion Gwledig

14 Chwefror 2025

Annwyl Huw,

**Y Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru)**

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 10 Chwefror 2025 i drafod y Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru).

Ar ddiwedd y cyfarfod, dywedais y byddai'r Pwyllgor yn ysgrifennu atoch gyda chwestiynau ychwanegol nad oedd amser i'w gofyn yn ystod y sesiwn. Mae'r cwestiynau hyn wedi'u cynnwys yn yr atodiad i'r llythyr hwn. Yn ystod y cyfarfod, gwnaethoch hefyd gynnig darparu copïau o'r canllawiau drafft i helpu i lywio gwaith y Pwyllgor wrth iddo graffu ar y Bil.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r cwestiynau yn yr atodiad, yn ogystal â darparu copi o'r canllawiau drafft, erbyn 5 Mawrth 2025.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Yn gywir,



Mike Hedges

Cadeirydd



**Cwestiwn 1:** Mae nifer o ddarpariaethau yn y Bil sy'n gofyn am gydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Atodlen 7B i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*. Mewn llythyr at y Llywydd dyddiedig 8 Tachwedd 2024, dywedodd y Prif Weinidog fod y broses ymgysylltu â Llywodraeth y DU i geisio cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer y darpariaethau wedi dechrau. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch pryd y disgwylir i gydsyniad ddod i law?

**Cwestiwn 2:** Nid yw'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn trafod hawliau dynol, er bod sôn am hawliau dynol yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. I ba raddau yr ydych chi wedi ystyried hawliau dynol wrth baratoi'r Bil?

**Cwestiwn 3:** Beth oedd canlyniad unrhyw asesiadau a gynhaliwyd mewn perthynas ag effeithiau'r Bil ar hawliau dynol? Pa gamau yr ydych chi wedi'u cymryd i gyfyngu ar yr ymyrraeth â hawliau dynol gan y Bil?

**Cwestiwn 4:** A allwch egluro a arweiniodd canlyniad yr asesiad o'r effaith ar gyfiawnder at newid y dull gweithredu mewn perthynas â'r Bil, ac os felly, beth oedd y newid hwnnw?

**Cwestiwn 5:** Rydych chi wedi cydnabod bod y Bil yn newid elfennau o'ch Papur Gwyn yn 2022 am resymau hyblygrwydd, cymesuredd a rhesymoldeb. Pam na wnaethoch chi, felly ymgynghori ar Fil drafft o ystyried pwysigrwydd y pwnc?

**Cwestiwn 6:** Beth yw'r gwahaniaethau rhwng y Bil fel y'i disgrifiwyd yn y Papur Gwyn a'r Bil fel y'i cyflwynwyd? Fel rhan o'ch ateb, a allwch nodi pob enghraifft lle'r oedd y Papur Gwyn yn awgrymu defnyddio deddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth, ond y bydd canllawiau bellach yn cael eu defnyddio yn lle hynny?

**Cwestiwn 7:** Roedd y cynigion yn y Papur Gwyn yn canolbwyntio ar domenni glo nas defnyddir, ond roedd y Papur Gwyn hefyd yn awgrymu y byddai'r Llywodraeth yn ystyried datblygu fframwaith a all fod yr un mor berthnasol i domenni glo ag i domenni nad ydynt yn domenni glo, gan olygu y byddai modd mynd ati'n raddol dros amser i gynnwys mathau eraill o domenni sborion yn y gyfundrefn newydd (paragraff 1.44).

- (i) A yw cynnwys tomenni nad ydynt yn domenni glo yn y Bil wedi arwain at fwy o ddibyniaeth ar ganllawiau i gyflawni ei amcanion yn hytrach nag is-ddeddfwriaeth? (Er enghraifft, mewn perthynas â chynlluniau rheoli – gweler paragraff 6.12 o'r Papur Gwyn).
- (ii) Os nad dyna'r achos, sut y mae'r penderfyniad i ymestyn cwrdd y Bil i gynnwys tomenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo wedi effeithio ar fanyldeb y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y Bil, yn ogystal â'r pwerau i wneud rheoliadau a'r defnydd a wneir o ganllawiau?

**Cwestiwn 8:** Beth yw'r berthynas rhwng diffiniad 'bygythiad i les dynol' (neu 'threat to human welfare') yn adran 82, a phrif amcan yr Awdurdod yn adran 2(1) i sicrhau nad yw tomenni nas defnyddir yn bygwth llesiant dynol?

**Cwestiwn 9:** Mae adran 2(1) o'r Bil yn nodi prif amcan yr Awdurdod. Beth yw amcanion eraill yr Awdurdod, a pham nad yw'r rhain wedi'u nodi ar wyneb y Bil?

**Cwestiwn 10:** Mae adrannau 12 i 19 yn ymwneud ag asesiadau o sefydlogrwydd tomen. Mae'r ffordd y cynhelir asesiadau i'w benderfynu mewn canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru.

Pam nad oes unrhyw fanylion am sut y bydd asesiadau'n cael eu cynnal ar wyneb y Bil? Pam na wnaethoch ystyried cynnwys pŵer i'r wybodaeth honno gael ei nodi ar ffurf rheoliadau?

**Cwestiwn 11:** Argymhellodd Comisiwn y Gyfraith hawl i apelio yn erbyn eitem yng nghofrestr y domen ar y sail nad oes tomen ar y tir. Yn hytrach na phroses apelio, mae adran 20 o'r Bil yn galluogi perchennog y domen (a phersonau eraill) i gyflwyno sylwadau ar y cynnig i gofrestru tomen, y mae adran 21 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod roi sylw iddynt wrth benderfynu a ddylid ei chofrestru. I ba raddau ydych chi'n ystyried bod y dull hwn yn cyfleu bwriad argymhelliad Comisiwn y Gyfraith?

**Cwestiwn 12:** Mae adrannau 20, 22 a 29 yn cynnwys pwerau Harri VIII. Pam eu bod yn destun y weithdrefn negyddol?

**Cwestiwn 13:** Mae adran 24 yn ymwneud â'r categorïau o domenni. Yn ôl y Papur Gwyn (paragraff 7.7):

*"Credwn, er mwyn sicrhau eglurder o ran rolau a chyfrifoldebau, y dylai'r ddeddfwriaeth nodi'n glir pwy sy'n gyfrifol am ba categori o domen, gan roi digon o wybodaeth i bartïon ymlaen llaw ynghylch pa gyfrifoldebau y bydd yn ofynnol iddynt eu cyflawni."*

Pam nad ydych wedi dilyn yr hyn a gynigiodd y Papur Gwyn?

**Cwestiwn 14:** Yn ~~llythyr~~ Llywodraeth Cymru at Gomisiwn y Gyfraith ym mis Mawrth 2023 dywedodd y byddai'r Awdurdod o dan ddyletswydd i wneud trefniadau i gynlluniau rheoli gael eu paratoi ar gyfer tomenni Categori 1 a 2. Fodd bynnag, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi (paragraff 3.73) fel a ganlyn:

*"Er nad yw'r Bil yn cynnwys gofyniad i greu cynlluniau rheoli, bydd cynlluniau o'r fath yn bwysig wrth gymhwyso'r gyfundrefn."*

Er y cafodd cynlluniau rheoli eu trafod yn ystod y sesiwn dystiolaeth, byddai'n ddefnyddiol pe gallech egluro beth achosodd i'r safbwynt hwn newid?

**Cwestiwn 15:** Os mai dim ond disgwyliad yn y canllawiau yw paratoi cynlluniau rheoli, a yw hynny'n golygu y gallai fod yn bosibl na fydd gan rai awgrymiadau Categori 1 a 2 gynlluniau rheoli ac felly'n tanseilio effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth?



**Cwestiwn 16:** Roedd y Papur Gwyn yn cynnig amrywiaeth o bwerau gorfodi a throeddau cysylltiedig, ac ystod o sancsiynau sifil fel cosbau ariannol penodedig, hysbysiadau cydymffurfio, hysbysiadau stop ac ati. Nid yw'r rhain wedi'u cynnwys yn y Bil. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi (paragraff 4.30) yn ystod y broses o ddatblygu polisi y penderfynwyd y byddai eu cynnwys "yn gwneud y gyfundrefn yn or-fiwrocraidd ac yn anhydrin".

Pam y byddai materion gorfodi sy'n cael eu gosod ar wyneb y Bil yn rhy fiwrocraidd ac yn anhydrin ac a oes risg y gallai'r bwlch hwn leihau hyder y cyhoedd yn y gyfundrefn?

**Cwestiwn 17:** Pam nad oes trefn sancsiynau sifil ar wyneb y Bil?

**Cwestiwn 18:** Mae adrannau 33 a 34 yn caniatáu i eiddo gael ei waredu gan yr Awdurdod a pherchnogion tomennydd nas defnyddir, gan gynnwys trwy werthu. Pam ydych chi'n ystyried bod y ddarpariaeth hon yn angenrheidiol ac a allech chi roi manylion yr hyn y gellid ei werthu o dan y pŵer hwn?

**Cwestiwn 19:** O ystyried faint o fanylion a adewir i ganllawiau, pam na roddwyd dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio a diweddarau canllawiau, a pham ydych chi'n dibynnu ar y swyddogaethau gweithredol yn adran 58 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*? Sut y mae hynny'n gyson ag agenda hygyrchedd Llywodraeth Cymru?

**Cwestiwn 20:** Mae adran 72 yn atal achosion rhag cael eu dwyn mewn cysylltiad â throedd yn y Bil, neu reoliadau a wneir oddi tano, ac eithrio gan yr Awdurdod gyda chydysyniad y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus. Pam fod angen y ddarpariaeth hon?

**Cwestiwn 21:** Pam yr ydych yn ystyried bod angen pŵer Harri VIII yn adran 73?

**Cwestiwn 22:** Beth yw diben adran 79 o'r Bil, sy'n gwneud darpariaeth benodol mewn perthynas â thir Eglwys Loegr?

**Cwestiwn 23:** Mae Adran 80 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n addasu cymhwysiad y Ddeddf hon mewn perthynas â thir y mae gan yr Awdurdod ystad neu fuddiant ynddo. Pam fod angen y pŵer hwn?

**Cwestiwn 24:** Cyfeirir yn benodol at y Goron gan gynnwys Comisiwn y Senedd yn adran 84(7) o'r Bil. Pam fod angen y ddarpariaeth hon?

**Cwestiwn 25:** Mae paragraff 3(g) o Atodlen 1 i'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu mewn rheoliadau ddeiliaid swyddi, aelodau ac aelodau o staff cyrff sydd i'w hanghymhwyso rhag bod yn aelod anweithredol o'r Awdurdod. Pam na chafodd y ddarpariaeth hon ei chynnwys ar wyneb y Bil i roi eglurder, o ystyried bod personau anghymwys eraill wedi'u rhestru ym mharagraff 3(a) i (f)?

**Cwestiwn 26:** Mae paragraff 19(1) o Atodlen 1 yn cynnwys pŵer Harri VIII i ddiwygio cyfnod cynllunio'r Awdurdod. Pam ydych chi'n ystyried bod y pŵer hwn yn angenrheidiol?

**Cwestiwn 27:** Sut yr ymdrinnir ag awgrymiadau trawsffiniol o dan y Bil?



**Cwestiwn 28:** Yn eich barn chi, a fydd angen deddfwriaeth bellach yn y dyfodol agos mewn meysydd eraill o'r gyfraith i gynnwys y ddarpariaeth a wneir gan y Bil? Er enghraifft, newidiadau i ddeddfwriaeth cynllunio neu amgylcheddol i gynorthwyo gyda gweithredu'r Bil?

**Cwestiwn 29:** Beth fyddai'r amserlenni ar gyfer paratoi a chyflwyno'r ddeddfwriaeth arfaethedig y cyfeirir ati yng nghwestiwn 28?

**Cwestiwn 30:** Mae adran 87 yn darparu y bydd rhai o ddarpariaethau'r Bil yn dod i rym ar 1 Ebrill 2027. Pam y bydd cymaint o oedi rhwng y Cydsyniad Brenhinol a'r darpariaethau perthnasol yn dod i rym?

**Cwestiwn 31:** A oes perygl y bydd yr oedi hwnnw wrth gychwyn darpariaethau'r Bil, yn arwain at risg y bydd yr amddiffyniadau a gynigir gan ddarpariaethau'r Bil yn cael eu gohirio, neu na fyddant yn cael eu dwyn i rym yn llawn gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol?

**Cwestiwn 32:** Os bydd y Bil yn cael ei basio a'i ddeddfu, pryd ydych chi'n rhagweld y bydd holl ddarpariaethau'r Bil a'r is-ddeddfwriaeth a'r canllawiau cysylltiedig mewn grym yn llawn?

Huw Irranca-Davies AS/MS  
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros  
Newid Hinsawdd a Materion Gwledig  
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate  
Change and Rural Affairs



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: PO/HIDCC/0046/25

Llŷr Gruffydd AS  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN

27 Chwefror 2025

Annwyl Llŷr,

Yn ystod y sesiwn dystiolaeth ar 12 Rhagfyr 2024, cynigiais rannu canllawiau cryno i gynorthwyo'r Pwyllgor i graffu ar y Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru).

Ar 6 Chwefror, anfonais ganllawiau cryno ar: Monitro; Apelio yn erbyn Galwadau am Gostau; Hawliadau am Ddigolediad; Adennill Costau a Chynlluniau Rheoli.

Amgaeaf nawr ganllawiau cryno ar asesiadau i'r Pwyllgor eu hystyried.

Maen nhw'n rhoi amlinelliad bras o'r meysydd allweddol a fydd yn cael eu cynnwys mewn canllawiau ynghyd ag arwydd o gyfeiriad polisi.

Yn gywir,

**Huw Irranca-Davies AS/MS**

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd  
a Materion Gwledig  
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru)  
[Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales](mailto:Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 106**  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) – Canllawiau Dangosol mewn perthynas â ddyletswydd yr Awdurdod i asesu tomenni nas defnyddir**

## **Cyflwyniad**

Mae'r Bil yn sefydlu system sy'n cynnwys asesiad o bob tomen nas defnyddir yng Nghymru. Hynny i sicrhau bod pob tomen nas defnyddir yn cael ei hasesu a'i chategoreiddio lle bo hynny'n briodol. Bydd pob domen yn y gofrestr yn cael ei monitro'n barhaus gan yr Awdurdod. Mae'r ddogfen hon yn rhoi disgrifiad bras o'r canllawiau y bydd Gweinidogion Cymru'n eu rhoi i'r Awdurdod ynghylch ei ddyletswydd i asesu tomenni nas defnyddir.

Yr un asesiadau rhagarweiniol a llawn fydd yn cael eu cynnal o domenni lo nas defnyddir ag o domenni di-lo nas defnyddir - dylai adroddiadau pob asesiad gofnodi, arfarnu a gwerthuso pob nodwedd o domen nas defnyddir a all ddylanwadu ar ei sefydlogrwydd, ac asesu unrhyw fygythiad posibl i les dynol oherwydd ei hansefydlogrwydd.

Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod lunio a chadw cofrestr electronig o domenni nas defnyddir. Fel rhan o'r broses o ychwanegu tomen at y gofrestr, rhaid i'r Awdurdod wneud y canlynol:

- cynnal asesiad rhagarweiniol o bob tomen nas defnyddir, er mwyn nodi pa domenni y bydd angen o bosib eu cynnwys ar y gofrestr;
- llunio adroddiad ar bob asesiad rhagarweiniol;
- cynnal asesiad llawn o domenni a nodwyd mewn asesiad rhagarweiniol eu bod yn domenni a allai fodloni'r meini prawf ar gyfer eu cofrestru ac y bydd angen eu cynnwys o bosib ar y gofrestr;
- mewn rhai amgylchiadau, cynnal asesiad llawn o domenni sydd eisoes ar y gofrestr;
- cynnal asesiad rhagarweiniol ychwanegol o domen nas defnyddir os credir ei bod yn briodol gwneud hynny, oherwydd newid yn ei hamgylchiadau, neu os ceir gwybodaeth newydd nad oedd ar gael yn ystod yr asesiad blaenorol,
- llunio adroddiad ar bob asesiad.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi disgrifiad bras o'r meysydd yr ydym yn disgwyl y bydd y canllaw hwn ar asesu yn ymdrin â nhw. Bydd canllawiau technegol pellach yn cael eu cyhoeddi gan yr Awdurdod i ymdrin â materion gweithredol.

Rhaid i'r Awdurdod roi sylw i'r canllawiau a roddir iddo gan Weinidogion Cymru wrth arfer ei swyddogaethau.

## **Nod y canllawiau**

Bydd yr adran hon yn nodi y bydd y canllawiau wedi'u datblygu mewn partneriaeth â rhanddeiliaid, arbenigwyr perthnasol ac ati i sicrhau eu bod yn seiliedig ar yr arfer da/gorau perthnasol a phrofiadau a dysgu gweithredol.

Bydd hefyd yn egluro nodau a phwrrpas y canllawiau ar asesu. Bydd yn cynnwys manylion, ymhlith pethau eraill:

- sut, yn ymarferol, y bydd disgwyl i'r Awdurdod gyflawni ei ddyletswydd i asesu tomenni nas defnyddir yng Nghymru
- methodoleg yr asesiadau rhagarweiniol a llawn.

Mae'r Bil yn nodi'r hyn a olygir wrth "asesiad rhagarweiniol" ac "asesiad llawn". Mae'n rhestru'r ffactorau y bydd yn rhaid eu ystyried wrth gynnal asesiad llawn.

## Asesiad Rhagarweiniol o domenni nas defnyddir

Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod baratoi rhaglen sy'n nodi sut y mae am gynnal asesiadau rhagarweiniol a'i amserlen ar gyfer eu cynnal. Bydd gofyn i'r Awdurdod anfon y rhaglen at Weinidogion Cymru i'w chymeradwyo cyn diwedd mis Mawrth 2028. Pan fydd Gweinidogion Cymru wedi cymeradwyo'r rhaglen, rhaid i'r Awdurdod gyhoeddi'r rhaglen. Rhaid cael cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru i newid y rhaglen, a rhaid cyhoeddi'r rhaglen ddiwygiedig cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Bydd y canllawiau'n nodi'r disgwyl, wrth gynnal asesiadau rhagarweiniol, bod yr Awdurdod yn blaenoriaethu tomenni sy'n perthyn i gategorïau C a D ar hyn o bryd - y tomenni â risg uwch. Byddai hynny'n ei gwneud yn haws cynnwys y tomenni sydd â'r potensial i fod yn fwy o fygythiad i les pobl, yn y drefn newydd. Bydd y canllawiau'n esbonio y bydd data'r Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio (MRA) am domenni glo nas defnyddir yn llywio pa asesiadau rhagarweiniol i'w blaenoriaethu. Cyn Ebrill 2027, disgwylir y bydd pob tomen lo Categori A, B, C a D nas defnyddir (2,272 ohonynt ar hyn o bryd) wedi cael ei harchwilio o leiaf unwaith gan yr MRA fel rhan o'r rhaglen genedlaethol i archwilio tomenni.

Bydd yn rhaid i'r Awdurdod gynnal asesiad rhagarweiniol o bob tomen nas defnyddir. Mae hynny'n golygu y bydd yr Awdurdod yn asesu a yw'n ymddangos bod tomen nas defnyddir yn bodloni'r meini prawf ar gyfer ei chofrestru.

Bydd asesiad rhagarweiniol i raddau helaeth yn ymarferiad desg i alluogi'r Awdurdod i nodi pa domenni a allai fod yn risg i les pobl. Bydd hynny'n ein helpu i benderfynu a oes angen asesiad llawn ai peidio.

Bydd y canllawiau'n esbonio'r hyn y bydd asesiad rhagarweiniol yn ei olygu, a beth fydd disgwyl i bob asesiad ei gynnwys, megis adolygiad o:

- yr wybodaeth a ddarparwyd gan yr MRA yn dilyn ei harchwiliad.
- unrhyw weithgarwch cloddio hanesyddol, gan gynnwys plan o'r fwynglawdd a chofnodion gadael, sy'n berthnasol i'r safle;
- mapiau hanesyddol sy'n berthnasol i'r safle;
- cofnodion arolygon topograffig sy'n berthnasol i'r safle;
- arfarniad o unrhyw wybodaeth berthnasol sy'n ymwneud â gweithgareddau monitro neu reoli ar y safle; a
- derbynleoedd posibl i'w hystyried yn yr asesiad, fel eiddo preswyl neu fasnachol, seilwaith cyfleustodau neu lwybrau trafnidiaeth y gellid effeithio arnynt pe bai'r domen yn ansefydlogi.

Bydd asesiadau rhagarweiniol yn asesu a yw'n ymddangos bod tomen nas defnyddir yn bodloni'r meini prawf ar gyfer ei chofrestru. Erbyn i'r Awdurdod ddod yn weithredol ym mis Ebrill 2027, rydym yn disgwyl y bydd yr Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio wedi cwblhau ei archwiliadau ffisegol o'r holl domenni glo nas defnyddir yng Nghymru. Bydd yr adroddiadau ar yr archwiliadau hynny ar gael i'r Awdurdod pan fydd yn cynnal yr asesiadau rhagarweiniol. Ni ragwelir y caiff archwiliad ffisegol newydd o domenni nas defnyddir ei gynnal yn y cam asesu rhagarweiniol. Caiff archwiliad ffisegol o'r domen ei gynnal yn y cam asesu llawn. Cynhelir asesiad llawn os yw'n ymddangos i'r Awdurdod, ar sail asesiad rhagarweiniol, y gallai'r meini prawf ar gyfer cofrestru tomen nas defnyddir gael eu bodloni.

## Asesiad Rhagarweiniol Ychwanegol o domen nas defnyddir

Bydd gofyn i'r Awdurdod gynnal asesiadau rhagarweiniol ychwanegol lle bernir bod angen hynny oherwydd:

- bod amgylchiadau ar y safle neu yn ei gyffiniau wedi newid. Mae enghreifftiau'n cynnwys y canlynol:
  - tir neu eiddo ger y safle sy'n cael ei ddatblygu gan gyflwyno neu gynyddu'r effeithiau posibl ar dderbynleoedd
  - newid yn y defnydd tir a allai ddylanwadu ar berfformiad peirianyddol y safle
- gwybodaeth newydd nad oedd ar gael yn ystod yr asesiad blaenorol.

Bydd yr asesiad fel yr hyn a amlinellir uchod ar gyfer asesiad rhagarweiniol.

### **Asesiad Llawn o domenni nas defnyddir**

Yn dilyn asesiad rhagarweiniol, os yw'n ymddangos i'r Awdurdod y gallai'r meini prawf ar gyfer ei chofrestru gael eu bodloni, rhaid i'r Awdurdod gynnal asesiad llawn o domen a llunio adroddiad ar yr asesiad.

Bydd asesiad nid yn unig yn ystyried beth y gallai methiant yn y domen effeithio arno ond bydd yn ystyried hefyd a oes bygythiad posibl o ansefydlogrwydd. Bydd asesiad yn edrych a oes ffactorau a allai ddylanwadu neu effeithio ar sefydlogrwydd tomen, gan gynnwys y rhai nad ydyn nhw ar gorff y domen ei hun.

Bydd y canllawiau'n esbonio beth y bydd asesiad llawn yn ei olygu, a beth y disgwylir i bob asesiad ei gynnwys, fel:

- arfarniad geodechnegol manwl a, lle bo angen, asesiad o sefydlogrwydd y domen;
- asesiad o'r effeithiau posibl os bydd y domen yn ansefydlogi;
- pethau sy'n effeithio neu a all effeithio ar sefydlogrwydd y domen, gallai hyn gynnwys defnydd tir, unrhyw ddatblygiad arfaethedig neu fod yn agos i gwrs dŵr;
- a allai unrhyw gyd-ddibyniaethau rhwng y domen a thomen arall nas defnyddir effeithio ar sefydlogrwydd y domen arall (e.e. lle rhennir seilwaith draenio rhwng sawl tomen); ac
- a yw'r meini prawf ar gyfer cofrestru yn cael eu bodloni.

Ni fydd angen cynnal asesiad llawn manylach o bob tomen nas defnyddir. Mae hyn yn dilyn egwyddorion y Bil ynghylch cymesuredd ac yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu blaenoriaethu i'r tomenni nas defnyddir sy'n bygwth, neu a allai fygwth lles pobl.

### **Asesiad Llawn Ychwanegol o domen nas defnyddir sydd eisoes ar y gofrestr**

Hefyd, mae'r Awdurdod yn gallu cwblhau asesiad llawn ychwanegol mewn perthynas â thomen nas defnyddir sydd eisoes wedi'i chofrestru os yw'n credu ei bod yn briodol gwneud hynny oherwydd newid mewn amgylchiadau neu oherwydd bod gwybodaeth newydd wedi dod i'r amlwg ers i'r domen gael ei hasesu'n llawn ddiwethaf. Mae enghreifftiau'n cynnwys y canlynol:

- mae gweithgareddau monitro wedi nodi dirywiad sylweddol ym mherfformiad y seilwaith sy'n hanfodol i ddiogelwch y domen;
- mae tir neu eiddo ger y safle yn cael ei ddatblygu gan gyflwyno neu gynyddu'r effeithiau posibl ar dderbynleoedd; a
- ceir newid yn y defnydd tir a allai ddylanwadu ar berfformiad peirianyddol y safle.

Bydd yr asesiad yr un fath ag a amlinellir uchod ar gyfer asesiad llawn.

### **Adroddiadau**

Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod lunio adroddiad cyn gynted ag y bo'n ymarferol yn dilyn pob asesiad. Bydd y canllawiau'n nodi bod disgwyl i'r asesydd, ar ôl cynnal asesiad, gynhyrchu'r adroddiad yn brydlon. Bydd y canllawiau'n rhoi rhagor o

fanylion ar yr hyn a olygir wrth brydlon a beth y bydd hynny'n ei olygu mewn perthynas â gwahanol fathau o adroddiadau, er enghraifft adroddiad ar asesiad cymhlethach. Os na ellir cwblhau'r adroddiad o fewn amserlen ymarferol, bydd y canllawiau'n nodi y bydd disgwyl i'r Awdurdod roi gwybod i berchennog y tir am unrhyw ddatblygiadau, gan gynnwys pam y mae oedi a phryd y gellid disgwyl i'r adroddiad gael ei gwblhau.

Bydd y canllawiau'n nodi y dylai adroddiadau fod yn sicr o ran ansawdd er mwyn sicrhau (ymhlith pethau eraill):

- bod casgliadau'n seiliedig ar ddata/tystiolaeth berthnasol;
- y rhoddir crynodeb o'r data gafodd ei ystyried fel rhan o'r asesiad; ac
- y tynnir sylw at arfer da o ran cynnal a chadw tomen nas defnyddir.

Yn ogystal â chadarnhau ansawdd adroddiadau, bydd y canllawiau'n esbonio bod disgwyl i uwch swyddog o'r Awdurdod lofnodi'r adroddiadau. Mater i'r Awdurdod fydd penderfynu pwy ddylai hwnnw fod, gan ystyried yr wybodaeth weithredol/technegol y mae'r swyddog yn meddu arni a'i arbenigedd a'i gyfrifoldebau.

### **Adroddiad ar yr Asesiad Rhagarweiniol**

Bydd y canllawiau'n nodi'r gofyniad yn y Bil, bod yr Awdurdod, pan fydd yn cynnal asesiad rhagarweiniol, yn disgrifio casgliadau'r asesiad rhagarweiniol mewn adroddiad ("adroddiad ar yr asesiad rhagarweiniol"). Yn ogystal, bydd y canllawiau'n nodi y caiff yr Awdurdod gynnwys unrhyw wybodaeth arall sydd yn ei farn yn briodol.

Bydd y canllawiau'n nodi bod disgwyl i'r adroddiad ar yr asesiad rhagarweiniol, gynnwys o leiaf:

- Gwybodaeth weinyddol:
  - rhif ID (dynodydd) unigryw (UID)
  - lleoliad y domen gan gynnwys map yn dangos ei ffiniau
  - enw'r asesydd
  - dyddiad yr asesiad
- Gwybodaeth Dechnegol.

**Tabl 1 – Enghreifftiau o'r mathau o wybodaeth dechnegol**

|                             |                                                         |
|-----------------------------|---------------------------------------------------------|
| 1. Geodechnegol;            | Craciau tensiwn, twmpathau, ymsuddiant, erydiad         |
| 2. Draeniad                 | Ffesydd, cylferta, cefnffuriau, sgriniau brigau         |
| 3. Seilwaith peirianyddol;  | Strwythurau cynnal, systemau cynnal                     |
| 4. Offeryniaeth a Monitro   | Mesurydd Glaw, mesurydd llif, pwyntiau tirlfesur        |
| 5. Halogi a Geoamgylcheddol | Llygredd, deunyddiau peryglus, rhywogaethau goresgynnol |

### **Adroddiad ar Asesiadau Rhagarweiniol Ychwanegol**

Bydd y canllawiau'n nodi bod disgwyl i'r Awdurdod, pan fydd yn cynnal asesiad rhagarweiniol ychwanegol, disgrifio casgliadau'r asesiad rhagarweiniol ychwanegol mewn adroddiad ("adroddiad ar yr asesiad rhagarweiniol ychwanegol"). Yn ogystal, bydd y canllawiau'n ei gwneud yn glir y caiff yr Awdurdod gynnwys unrhyw wybodaeth arall sydd yn ei farn yn briodol.

## Adroddiad ar yr Asesiad Llawn

Bydd y canllawiau'n nodi bod disgwyl i'r Awdurdod, pan fydd yn cynnal asesiad llawn, ddisgrifio casgliadau'r asesiad llawn mewn adroddiad ("adroddiad ar yr asesiad llawn"). Bydd y canllawiau'n nodi bod disgwyl i'r adroddiad ar yr asesiad llawn, gynnwys o leiaf:

- **Gwybodaeth weinyddol:**

- rhif ID (dynodydd) unigryw (UID)
- categori'r domen
- lleoliad y domen gan gynnwys map yn dangos ei ffiniau
- enw'r asesydd
- dyddiad yr asesiad a'r asesiad rhagarweiniol, a'r asesiad rhagarweiniol ychwanegol.

Yn ogystal, bydd y canllawiau'n ei gwneud yn glir y caiff yr Awdurdod gynnwys unrhyw wybodaeth arall sydd yn ei farn yn briodol.

Cyn gynted ag y bo'n ymarferol, bydd gofyn i'r Awdurdod roi hysbysiad yn nodi casgliadau'r asesiad llawn i bob perchennog a phob meddiannydd o'r tir y mae'r domen wedi'i lleoli arno.

## Adroddiad ar yr Asesiad Llawn Ychwanegol o domen nas defnyddir sydd eisoes ar y gofrestr

Bydd y canllawiau'n nodi y bydd disgwyl i'r Awdurdod, pan fydd yn cynnal asesiad llawn ychwanegol o domen nas defnyddir sydd eisoes ar y gofrestr, ddisgrifio casgliadau'r asesiad llawn ychwanegol mewn adroddiad ("adroddiad ar yr asesiad llawn ychwanegol").

Gofynnir am yr un wybodaeth weinyddol ag y gofynnir amdani yn yr adroddiad ar yr asesiad llawn.

Yn ogystal, bydd y canllawiau'n ei gwneud yn glir y caiff yr Awdurdod gynnwys unrhyw wybodaeth arall sydd yn ei farn yn briodol.

## Cymwysedau

Mae person cymwys yn golygu unigolyn sydd wedi cael digon o hyfforddiant ac sydd â digon o wybodaeth a phrofiad i allu cynnal y gweithgaredd. Bydd y canllawiau'n argymhell bod yr Awdurdod yn pennu'r sgiliau a'r cymwysterau sydd eu hangen yn hyn o beth a bod disgwyl i'r Awdurdod roi arweiniad o ran datblygu sgiliau a meithrin galluoedd a chapasiti'r adnoddau yng Nghymru.

## Adolygiadau ac Ymgynghoriadau yn y Dyfodol

Bydd Gweinidogion Cymru yn adolygu'r canllawiau o bryd i'w gilydd i sicrhau eu bod yn dal i fod yn addas i'r diben.

Gallai'r adran hon gynnwys gwybodaeth hefyd sut y bydd y canllawiau'n cael eu hadolygu a'u diweddarau. Gwneir hyn yn dilyn trafod ac ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol.

## Cwestiynau cyffredin

Byddai'r adran hon yn nodi bod disgwyl i'r Awdurdod gyhoeddi dogfen Cwestiynau Cyffredin ar asesiadau.

## Y Gymraeg

Bydd yr Awdurdod yn cael ei ychwanegu at Atodlen 6 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Y bwriad yw ei ychwanegu at Atodlen 6 i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016, ac i'r



Awdurdod fod yn ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg. Bydd disgwyl i'r Awdurdod hyrwyddo ac annog y defnydd o'r Gymraeg ym mhob agwedd ar ei waith yng Nghymru. Bydd yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg, yn Saesneg ac yn y ddwy iaith, a bydd yn gohebu yn y dewis iaith a nodir.

Huw Irranca-Davies AS/MS  
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros  
Newid Hinsawdd a Materion Gwledig  
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate  
Change and Rural Affairs



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: PO/HIDCC/0091/25

Llŷr Gruffydd AS  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a'r Seilwaith  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN

27 Chwefror 2025

Annwyl Llŷr,

Rwy'n falch o roi gwybod i'r Pwyllgor, yn dilyn ymgysylltu â Llywodraeth y DU, fod cydsyniad Gweinidog y Goron wedi'i dderbyn mewn perthynas â'r darpariaethau perthnasol yn y Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru).

Mae'r llythyr hwn wedi'i gopïo i'r Llywydd, y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Cyllid.

Yn gywir,

**Huw Irranca-Davies AS/MS**

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd  
a Materion Gwledig  
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru)  
[Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales](mailto:Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 113



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref KS/PO/71/2025

Mike Hedges AS  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad  
Senedd Cymru

[SeneddLJC@senedd.wales](mailto:SeneddLJC@senedd.wales)

18 Chwefror 2025

Annwyl Mike

**Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol  
Trafnidiaeth**

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol i'ch hysbysu am gyfarfod nesaf y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Drafnidiaeth a gynhelir ar 5 Mawrth 2025.

Byddaf yn cadeirio'r cyfarfod, ac rwy'n rhagweld y bydd y drafodaeth yn canolbwyntio ar Wydnwch Porthladdoedd, Diwygio Treth Moduro ac E-Sgwteri.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Byddaf yn rhoi diweddariad ar ôl y cyfarfod.

Yn gywir,

**Ken Skates AS**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru  
Cabinet Secretary for Transport and North Wales

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru)  
[Correspondence.Ken.Skates@gov.wales](mailto:Correspondence.Ken.Skates@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Bydd unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ein cyf/Our Ref KS/PO/81/2025

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Llŷr Gruffydd AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

19 Chwefror 2025

Annwyl Llŷr

Diolch am eich llythyr dyddiedig 13 Rhagfyr ynglŷn â'r materion a godwyd yn ystod y sesiwn graffu. Gweler yr atebion isod i'r cwestiynau gan y pwyllgor.

### Cludo Nwyddau

- A allech roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am y gwaith i ddatblygu Cynllun Cludo Nwyddau a Logisteg Cenedlaethol Cymru, gan gynnwys pryd y bydd yn cael ei gyhoeddi a'r hyn y bydd yn ei gynnwys, o gofio bod ymrwymiad yn y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth i ddatblygu hwn erbyn 2024?**

Gwnaeth Llywodraeth Cymru ymrwymiad fel y nodir yn Llwybr Newydd, Strategaeth Trafnidiaeth Cymru, i ddatblygu Cynllun Cludo Nwyddau a Logisteg newydd i Gymru erbyn diwedd 2024. Rwy'n deall efallai fod rhywfaint o siom nad yw'r cynllun wedi'i gyhoeddi eto. Fodd bynnag, rydym wedi gorfod canolbwyntio ar flaenoriaethau trafndiaeth eraill.

Rydym yn cydnabod bod y diwydiant yn wynebu heriau mwy uniongyrchol, ond mae'n rhaid inni fod yn fwy realistig ynghylch yr hyn y gallwn ei gyflawni rhwng nawr a diwedd tymor y llywodraeth hon. Rwy'n awyddus i fynd i'r afael â'r heriau hynny gyda chanlyniadau y gellir eu cyflawni sy'n cael eu sbarduno gan y diwydiant.

Fy mlaenoriaeth yw ymrwymo i gamau gweithredu y gellir eu cyflawni'n realistig erbyn diwedd tymor y llywodraeth hon ac yna gosod llwybr i unrhyw lywodraeth newydd sy'n dod wedyn i adnewyddu'r cynllun yn 2026, gyda phum mlynedd arall o gamau i'w cyflawni.

Rydym yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod y sector yn cael y cymorth sydd ei angen arno i barhau i ddarparu ar gyfer y DU gyfan. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio tuag at ddatblygu Cynllun Cludo Nwyddau a Logisteg Cymru, gyda'r gwaith rhagarweiniol bellach wedi'i gwblhau. Trafodwyd y blaenoriaethau allweddol drwy gydweithio ac ymgynghori â rhanddeiliaid megis The Rail Freight Group, Road Haulage Association a Logistics UK.

Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn sefydlu Grŵp Cyflawni Logisteg Cymru, a'i gylch gwaith fydd cydweithio ar yr atebion ymarferol hyn a darparu trosolwg o'n gweithredoedd ar y cyd dros y blynyddoedd nesaf.

Er gwaethaf yr holl ddatblygiadau mewn technoleg, pobl sy'n sail i'r diwydiant hwn. Mae sgiliau'n hanfodol, heddiw ac ar gyfer y dyfodol, felly mae'n rhaid inni gael llwybrau gyrfa clir lle mae gyrfa mewn cludo nwyddau a logisteg yn gyswllt deniadol i unigolion sy'n gadael yr

ysgol a choleg. Mae angen inni weithio gyda'n gilydd i ddenu mwy o bobl i'r diwydiant, hybu cyfraddau cadw ac ehangu cyfleoedd hyfforddi.

Mae bylchau sylweddol yn y dystiolaeth a'r ystadegau sydd ar gael ar gyfer cludo nwyddau a logisteg yng Nghymru. Mae angen dadansoddiad mwy manwl arnom o ddata'r diwydiant. Mae'n amlwg bod angen mapio'r cyfleusterau ymyl ffordd presennol a'r lleoliadau parcio HGV a ddefnyddir yn aml yng Nghymru, felly rydym yn edrych ar yr hyn y gallwn ei wneud yn y maes hwn.

Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol i drafod integreiddio anghenion seilwaith cludo nwyddau a logisteg yn y dyfodol mewn cynlluniau datblygu lleol a chynlluniau trafndiaeth rhanbarthol.

Gan gydnabod yr ansicrwydd yn y diwydiant am ddatgarboneiddio fflydoedd a sut i fabwysiadu cerbydau trydan a hydrogen yn effeithiol, rydym yn gweithio gyda'r diwydiant i ddod o hyd i ffordd ymlaen a mynd i'r afael â'r hyn sy'n ein hatal rhag defnyddio cerbydau o'r fath drwy Raglen Ddatgarboneiddio Cerbydau Masnachol Cymru dan arweiniad Zemo Partnership. Yn olaf, mewn maes lle Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am ysgogi llawer o gamau gweithredu, byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid newydd yn San Steffan i ddarparu gwell gwasanaethau cludo nwyddau a logisteg yng Nghymru a sicrhau dull integredig gyda gweddill y DU.

Byddaf yn darparu datganiad ysgrifenedig i'r Senedd yn rhestru ein camau gweithredu allweddol y gellir eu cyflawni ar gyfer y ddwy flynedd nesaf maes o law.

- **A allech amlinellu ym mha ffordd yr ydych yn cydweithio ag Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio ar y meysydd y mae eich portffolios yn croestorri, gan gynnwys cludo nwyddau?**

Mae aelodau Llywodraeth Cymru yn cydweithio drwy drafodaethau'r Cabinet, a'r tu allan i hyn rydym yn cynnal cyfarfodydd dwyochrog rheolaidd i drafod a chydweithio ar gyfrifoldebau portffolio sy'n croestorri.

Yr enghraifft fwyaf rhagweithiol ar hyn o bryd yw bod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio yn fy nghefnogi, gyda sefydlu tasglu aml-randdeiliad dan arweiniad Llywodraeth Cymru i ddatblygu strategaeth newydd ar gyfer dyfodol Porthladd Caergybi. Bydd y Gweinidog Lawless o Lywodraeth Iwerddon yn cymryd rhan yn y tasglu er mwyn inni allu sicrhau y bydd y porthladd yn diwallu anghenion y ddwy wlad yn y dyfodol. Bydd y tasglu hefyd yn ystyried gwytnwch y cysylltedd môr rhwng Cymru ac Iwerddon yn fwy cyffredinol, er mwyn i'r cysylltiadau trafndiaeth hollbwysig hyn allu gwrthsefyll yr heriau rydym yn eu disgwyl yn sgil newidiadau oherwydd yr hinsawdd mewn patrymau tywydd garw a pheryglon a bygythiadau eraill. Bydd y tasglu'n cysylltu â'n gwaith ehangach ar Strategaeth Porthladdoedd a Thrafnidiaeth Forol ar gyfer Cymru.

Bydd y gwaith blaenoriaeth tymor byrrach hwn yn helpu i lywio cwrpas y Strategaeth Porthladdoedd a Thrafnidiaeth Forol ehangach ar gyfer Cymru ac yn pennu'r gyllideb sy'n ofynnol i gyflawni'r Strategaeth.

Bydd y cynllun logisteg a chludo nwyddau newydd ar gyfer Cymru, yn cael ei ddatblygu ochr yn ochr â Strategaeth Porthladdoedd a Thrafnidiaeth Forol Cymru, o ystyried y rhyngddibyniaethau sylweddol rhwng y sectorau, heriau'r gadwyn gyflenwi sy'n cael eu profi ledled y byd ar hyn o bryd a'r cyfleoedd posibl ar gyfer modelau logisteg mwy cynaliadwy.

Enghraifft arall o gydweithio yw bod anghenion cysylltedd o ran Cludo Nwyddau a Logisteg, Porthladdoedd Morol a Thrafnidiaeth Maes Awyr Caerdydd yn cael eu hystyried yn rhan o'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol y mae'r Cyd-bwyllgorau Corfforaethol yn eu paratoi nawr ac yn cynnig fforwm lle gall y Llywodraeth edrych ar unrhyw faterion neu gyfleoedd o ran cysylltedd. Mae swyddogion Polisi Porthladdoedd Rhydd Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni a Chynllunio yn cydweithio â swyddogion Trafnidiaeth wrth asesu'r achosion busnes ar gyfer y Porthladd Rhydd Celtaidd yng Nghastell-nedd Port Talbot a Sir Benfro a Phorthladd Rhydd Ynys Môn i sicrhau bod anghenion teithwyr a chysylltedd cludo nwyddau yn cael eu hystyried yn rhan o ddatblygiad y Porthladdoedd Rhydd hynny.

## **Diwygio'r Rheilffyrdd**

### **1. A allwch roi manylion y trafodaethau yr ydych chi a'ch swyddogion yn eu cael gyda'ch cymheiriaid i sicrhau bod y Bil yn adlewyrchu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn ddigonol?**

Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i roi rôl statudol i Weinidogion Cymru mewn llywodraethu, rheoli, cynllunio a datblygu'r rhwydwaith rheilffyrdd yng Nghymru a byddwn yn gweithio mewn partneriaeth i lunio sut y gall hyn arwain at ganlyniadau gwell i deithwyr.

Rwyf wedi cael trafodaethau cynhyrchiol gyda Gweinidog Rheilffyrdd y DU, yr Arglwydd Hendy, a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth, Heidi Alexander AS, ynghylch ein prif flaenoriaethau ar gyfer Diwygio'r Rheilffyrdd. Mae'r trafodaethau hyn wedi cynnwys sefydlu uned fusnes wedi'i grymuso ar gyfer Cymru a'r Gororau o fewn Great British Railways a fyddai'n atebol i Weinidogion Cymru am seilwaith rheilffyrdd ochr yn ochr â mwy o rôl ym manyleb a gweithrediad gwasanaethau rheilffyrdd i Gymru ac oddi yno.

Mae fy swyddogion yn trafod yn rheolaidd â swyddogion Llywodraeth y DU i sicrhau bod ein blaenoriaethau'n cael eu deall, eu parchu a'u bod yn cael eu defnyddio i lywio'r gwaith o ddiwygio'r rheilffyrdd. Disgwylir i'r ymgynghoriad ffurfiol sy'n nodi'r mesurau deddfwriaethol arfaethedig a fydd yn rhan o'r Bil Rheilffyrdd newydd gael ei gyhoeddi yn fuan.

### **2. Sut yr ydych yn rhagweld y bydd GBR – corff a fydd yn arfer swyddogaethau mewn perthynas â materion a gedwir yn ôl — yn atebol i Weinidogion Cymru mewn ffordd ystyrlon? Er enghraifft, a ydych yn rhagweld y bydd y Bil yn datganoli pwerau gweithredol sylweddol i Weinidogion Cymru yn unig, ynteu a fydd y rhain yn cael eu rhannu â'r Ysgrifennydd Gwladol?**

Rydym yn ceisio cyflwyno diwygiadau sylfaenol i fodel gweithredu rheilffyrdd Cymru. Rydym wedi amlinellu ein blaenoriaethau ar gyfer diwygio'r rheilffyrdd i Lywodraeth y DU, gan gynnwys yr angen am atebolrwydd i Gymru ar gyfer rheoli a gwella seilwaith rheilffyrdd, a mwy o rôl i Weinidogion Cymru mewn gwasanaethau rheilffyrdd i Gymru ac oddi yno.

Byddai Uned Fusnes wedi'i grymuso ar gyfer Cymru a'r Gororau o fewn Great British Railways sy'n atebol i Weinidogion Cymru a'r DU, yn newid sylweddol o'r status quo. Rydym yn cydnabod yr angen am gydweithio o ystyried natur drawsffiniol y gwasanaethau, y teithiau a'r seilwaith sy'n cysylltu Cymru. Datganoli llawn ochr yn ochr â setliad cyllido teg yw ein nod hirdymor o hyd. Rydym yn ystyried datganoli yn broses, nid digwyddiad, ac yn gweld y rhaglen ddiwygio bresennol yn foment arwyddocaol i alluogi mwy o rôl i Weinidogion Cymru dros wasanaethau a seilwaith rheilffyrdd.

### **3. A allwch roi rhagor o fanylion am eich awgrym y bydd Aelodau o'r Senedd yn gallu craffu ar uned fusnes Cymru a'r Gororau?**

Rydym am alluogi'r Senedd i gael mwy o bwerau na'r hyn sydd ganddi ar hyn o bryd i graffu ar y cyrff a fydd yn darparu gwasanaethau rheilffyrdd ac yn rheoli'r seilwaith rheilffyrdd yng Nghymru. Mae fy swyddogion yn trafod gyda Llywodraeth y DU rôl Gweinidogion Cymru, a phwyllgorau'r Senedd, wrth ddarparu trefniadau craffu o dan fodelau partneriaeth posibl.

**4. Hoffem gael rhagor o wybodaeth a manylion am y modd y caiff cyllid ar gyfer Llinellau Craidd y Cymoedd ei drin o dan fformiwla Barnett, gan gynnwys:**

- Sut mae hyn yn cael ei reoli ar hyn o bryd o dan y cytundeb trosglwyddo perchnogaeth;
- Y materion sydd eto i'w hegluro yng ngoleuni llythyr Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg at Ganghellor y Trysorlys.
- Cyfanswm y cyllid a dderbynnir yn flynyddol ar hyn o bryd, a'r swm sy'n ddyledus yn dilyn cytundeb pellach yn ôl eich amcangyfrifon chi.

Cafwyd cyfnod trosiannol ar ôl trosglwyddo Llinellau Craidd y Cymoedd (CVL) yn 2020. Ar gyfer y blynyddoedd 2020-21 i 2023-24, trosglwyddodd yr Adran Drafnidiaeth swm ar gyfer Gweithrediadau, Cynnal a Chadw ac Adnewyddu i Lywodraeth Cymru yn flynyddol, tua £13miliwn y flwyddyn ar gyfartaledd. Roedd yna hefyd drosglwyddiad untro o £141miliwn o gyfalaf i dalu am welliannau yn 2020-21.

Yn ystod y cyfnod trosiannol, cynhyrchodd Trafnidiaeth Cymru adroddiad llawn ar Weithrediadau CVL a chostau Cynnal a Chadw. Rhoddodd y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd asesiad o'r adroddiad hwn ar gyfer Llywodraethau Cymru a'r DU, ac o ganlyniad ychwanegwyd trosglwyddiad llinell sylfaen o £39miliwn at gyllideb Llywodraeth Cymru yn 2024-25, tua hanner adnoddau a hanner cyfalaf.

Mae'r cyllid ar gyfer gwelliannau a thriniaeth CVL yn fformiwla Barnett yn cael eu trafod fel rhan o adolygiad gwariant parhaus Llywodraeth y DU.

**5. Pa sicrwydd ydych chi wedi'i gael gan Lywodraeth y DU ynglŷn â chreu cronfa wella bwrpasol i Gymru?**

Rwyf wedi cyfnewid llythyrau gydag Ysgrifenyddion Gwladol Cymru a Thrafnidiaeth lle mae Llywodraeth y DU wedi cydnabod bod Llywodraethau blaenorol wedi tanariannu Cymru ar gyfer gwelliannau i'r seilwaith rheilffyrdd. Fel y cytunwyd wrth gyfnewid y llythyrau hyn, byddwn nawr yn gweithio gyda'n gilydd ar y blaenoriaethau cychwynnol a nodwyd gan Fwrdd Rheilffyrdd Cymru, yr ymyriadau a argymhellwyd gan Gomisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru a Chomisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru. Bydd y rhain yn ffocws a fydd yn llywio trafodaethau gyda Thrysorlys y DU cyn Adolygiad Gwariant y Gwanwyn. Mae'r ddwy Lywodraeth yn cytuno ar yr angen am gronfa gynaliadwy o gyllid seilwaith rheilffyrdd i Gymru.

**6. Sut ydych chi'n rhagweld y bydd atebolrwydd am y gronfa hon yn cael ei rannu rhwng Gweinidogion Cymru a Gweinidogion y DU i sicrhau bod blaenoriaethau Cymru o ran rheilffyrdd yn cael eu cyflawni'n effeithiol?**

Yn dilyn cyfnewid llythyrau gyda Llywodraeth y DU, bydd fy swyddogion yn gweithio gyda'u cymheiriaid yn yr Adran Drafnidiaeth i ddiwygio Bwrdd Rheilffyrdd Cymru i gyflawni gwelliannau yn y dyfodol a sicrhau trosolwg ar y cyd.

**7. A allech:**

- Nodi'r cyfrifiadau sy'n sail i'r ffigur o £350 miliwn sydd, yn ôl Llywodraeth Cymru, yn ddyledus hyd at y flwyddyn ariannol gyfredol?

- **Rhannu barn Llywodraeth Cymru, gyda chyfrifiadau, ynghylch cyfanswm y cyllid canlyniadol a fyddai'n ddyledus ar gyfanswm gwariant y prosiect, yn seiliedig ar amcangyfrifon cyfredol yn awr bod cam 2 wedi cael ei ganslo?**

Deallaf fod Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg wedi ysgrifennu atoch ar wahân ynglŷn â'r mater hwn.

**8. A allech egluro pa gamau yr ydych yn eu cymryd i sicrhau bod blaenoriaethau Cymru yn cael eu hadlewyrchu'n ddigonol ym mhrosesau gwneud penderfyniadau gweinidogol y DU, yn enwedig mewn achosion lle y gallai amcanion Llywodraeth Cymru ac amcanion Llywodraeth y DU fod yn wahanol?**

Mae ein blaenoriaethau ar gyfer Cymru bob amser yn flaenllaw yn fy nhrafodaethau gyda Llywodraeth y DU. Drwy weithio ar y cyd, rydym yn datblygu piblinell o flaenoriaethau sy'n fwy cydgysylltiedig ac yn fwy strategol.

Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i roi rôl statudol i Weinidogion Cymru mewn llywodraethu, rheoli, cynllunio a datblygu'r rhwydwaith rheilffyrdd yng Nghymru. Rydym hefyd yn chwilio am ddyletswyddau statudol i GBR roi sylw dyledus i'n polisiau a'n strategaethau. Rydym yn cyd-fynd bod angen mwy o fuddsoddiad yn y seilwaith rheilffyrdd yng Nghymru i ysgogi twf economaidd ledled Cymru.

**9. A allech roi rhagor o wybodaeth am gyfansoddiad, gweithrediad, a rôl Bwrdd Rheilffyrdd Cymru, yn enwedig yn wyneb eich sylwadau ynghylch y Llyfr Gwyrdd a'r ffordd mae'n rhyngweithio ag amcanion Llywodraeth y DU ac amcanion Llywodraeth Cymru?**

Bwrdd ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a'r DU yw Bwrdd Rheilffyrdd Cymru sy'n cael ei fynychu gan uwch-swyddogion ac mae'n cynnwys cyrff cyflawni'r ddwy lywodraeth, Trafnidiaeth Cymru a Network Rail. Mae'r bwrdd yn cyfarfod yn chwarterol ac fe'i cyfansoddwyd yn dilyn argymhelliad gan y Pwyllgor Materion Cymreig.

Mae'r Bwrdd wedi datblygu piblinell o welliannau i'r seilwaith rheilffyrdd. Mae'r rhestr hon yn cael ei llywio gan arbenigwyr y diwydiant ac yn cefnogi blaenoriaethau'r ddwy lywodraeth. Mae'n gynllun cadarn ar gyfer gwella'r seilwaith rheilffyrdd yn y dyfodol ac mae wedi cryfhau ein hachos dros gyllid. Yn dilyn cyfnewid llythyrau yn ddiweddar, byddwn nawr yn gweithio gyda'r Adran Trafnidiaeth i ddiwygio Bwrdd Rheilffyrdd Cymru i oruchwyllo'r gwaith o ddarparu gwelliannau.

Mae'r Llyfr Gwyrdd yn ystyriaeth bwysig ac yn ffynhonnell arweiniad wrth ddatblygu ac asesu cynigion gwella. Datblygwyd Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth (TAG) yr Adran Trafnidiaeth, yn seiliedig ar yr egwyddorion a amlinellir yn y Llyfr Gwyrdd, ac ers hynny mae Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) wedi'i weithredu'n benodol i gefnogi prosiectau a rhaglenni yma yng Nghymru. Mae hyn yn adeiladu ar TAG ond mae wedi'i deilwra i sicrhau bod anghenion a blaenoriaethau penodol Cymru yn cael eu cynrychioli.

**10. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â risgiau cynyddol newid hinsawdd i'r rhwydwaith trafndiaeth, gan gynnwys rheilffyrdd?**

Mae effaith newid hinsawdd yn rhoi mwy o bwysau ar asedau gwerthfawr y seilwaith rheilffyrdd yng Nghymru. Achosodd y stormydd diweddar ddifrod sylweddol i'r rheilffyrdd, gan gynnwys y tirlithriad ger Gobowen a llifogydd ar Reilffordd Dyffryn Conwy.



Mae nifer o leoliadau ar Reilffordd Dyffryn Conwy lle mae'r balast wedi'i olchi i ffwrdd o dan y trac. Mae'n hanfodol bod gan Network Rail yr arian sydd ei angen arnynt i wella gwytnwch y rhwydwaith rheilffyrdd yng Nghymru ac i ddiogelu a chynnal ei seilwaith.

Gwyddom fod Llywodraeth flaenorol y DU wedi methu â buddsoddi i wella'r rhwydwaith rheilffyrdd yng Nghymru. Yn hytrach, gwnaeth sicrhau dirywiad dan reolaeth gyda gostyngiad mewn cyllid mewn termau real i Network Rail ar gyfer gweithrediadau, cynnal a chadw ac adnewyddu. Rwy'n gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU i sicrhau mwy o fuddsoddiad mewn rheilffyrdd yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth go iawn i wella asedau seilwaith. Rydym hefyd yn cymryd camau fel rhan o'n trawsnewidiad gwerth dros £1bn i Linellau Craidd y Cymoedd i sicrhau, yn y ffordd orau bosibl, fod ein seilwaith yn perfformio'n dda ac yn gallu gwrthsefyll yr heriau a ddaw yn sgil y newid yn yr hinsawdd.

## **Gwasanaethau Rheilffyrdd a Pherfformiad**

### **11.A allech roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwasanaeth arfaethedig rhwng Aberdaugleddau a Paddington?**

Rydym yn ymwybodol o gynigion i ymestyn rhai o wasanaethau Great Western Railway o Gaerfyrddin i wasanaethu Aberdaugleddau. Rydym yn cydnabod y cysylltedd ychwanegol y gallai'r estyniadau hyn i'r gwasanaeth eu darparu, gan hefyd ystyried yr effaith bosibl ar referniw teithwyr ar wasanaethau Trafnidiaeth Cymru. Rydym wedi gofyn i Trafnidiaeth Cymru ystyried yr effeithiau hyn er mwyn galluogi'r Adran Trafnidiaeth i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch a fyddai'n gallu ariannu'r estyniadau arfaethedig hyn i'r gwasanaeth, neu a fyddai'n dymuno gwneud hynny.

Cyflwynodd Trafnidiaeth Cymru welliannau i wasanaethau Gorllewin Cymru wrth gyflwyno newidiadau i'r amserlen ym mis Rhagfyr 2024 drwy gyflwyno dau wasanaeth ychwanegol i Aberdaugleddau. Mae hyn yn golygu bod 13 o wasanaethau dyddiol i'r dref erbyn hyn, gyda llawer o'r rhain yn cael eu gweithredu gan ein trenau Dosbarth 197 newydd sbon. Mae'r cynnydd mewn amllder yn rhoi mwy o opsiynau i deithwyr fanteisio ar y gwasanaeth pellter hirach tuag at Paddington Llundain yng Nghaerfyrddin, Abertawe neu Gaerdydd.

## **Diogelwch ar y ffyrdd a pharcio ar y palmant**

### **12.A allech roi amserlen i'r Pwyllgor ar gyfer cyhoeddi'r strategaeth diogelwch ffyrdd newydd?**

Eleni, rwy'n bwriadu gweithio gyda'n partneriaid i gytuno ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth a fydd yn darparu fframwaith cydlynus i gydgyssylltu ffocws ar feysydd allweddol megis diogelwch beicwyr modur, ffyrdd gwledig, gyrwyr ifanc a hŷn, e-symudedd a gyrru ag amhariad, ymhlith eraill. Bydd yn cyd-fynd â strategaeth newydd Llywodraeth y DU gan fabwysiadu'r dull System Ddiogel a gydnabyddir yn fyd-eang, yn seiliedig ar yr egwyddor foesegol nad yw byth yn dderbyniol i bobl gael eu hanafu'n ddifrifol neu eu lladd ar y rhwydwaith ffyrdd.

Bydd Bwrdd Diogelwch Ffyrdd Cenedlaethol yn cael ei sefydlu i reoli'r Memorandwm a bydd yn cynnwys partneriaid allweddol. Bydd y Bwrdd yn darparu goruchwyliaeth, yn cydlynu ymdrechion rhanddeiliaid, yn monitro cynnydd ac yn sicrhau bod yr amcanion diogelwch ar y ffyrdd y cytunwyd arnynt yn cael eu cyflawni.

### **13.Yn eich nodyn, a allech hefyd egluro a ydych o'r farn y byddai'n briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ynghylch parcio ar y palmant ar gyfer Cymru, fel yr awgrymwyd, o ystyried y byddai hyn yn cyfyngu ar gyfle'r Senedd i graffu ac na**

## **fyddai, er hynny, yn mynd i'r afael â'r materion sylfaenol, sef capasiti awdurdodau lleol?**

Er mwyn bwrw ymlaen â'r opsiwn a ffefrir, rhaid diwygio is-ddeddfwriaeth sydd heb ei datganoli i ganiatáu i awdurdodau lleol orfodi yn erbyn 'Rhwystro palmentydd yn ddiangen' gan fod angen gwahanu 'palmant' a 'ffordd' yn rheoliad 103 o Reoliadau Cerbydau Ffyrdd (Adeiladu a Defnyddio) 1986 - sy'n gwneud rhwystro ffyrdd yn ddiangen yn drosedd. Dim ond wedyn y gall Gweinidogion Cymru ychwanegu "rhwystro palmentydd yn ddiangen" at y rhestr o dramgwyddau sy'n ddarostyngedig i orfodaeth sifil yn Atodlen 7, paragraff 4(2) o Ddeddf Rheoli Traffig 2004 (TMA), gan ddefnyddio'r pwerau o dan baragraff 5 o'r Atodlen honno.

Gan nad yw'r Rheoliadau Cerbydau Ffyrdd (Adeiladu a Defnyddio) yn is-ddeddfwriaeth sydd wedi'i datganoli, nid yw Gweinidogion Cymru yn gallu ei diwygio, felly bydd yn rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ei diwygio i Gymru. Gallai'r diwygiad fod yn berthnasol i Gymru a Lloegr pe bai Llywodraeth y DU yn dewis gwneud yr un diwygiad i'r TMA mewn perthynas â Lloegr.

### **Adeiladu ffyrdd a ffyrdd heb eu mabwysiadu**

**14. Er mwyn deall yn well rôl adeiladu ffyrdd o ran cyrraedd targedau Llywodraeth Cymru, byddem yn croesawu cael data neu dystiolaeth o brosiectau megis ffordd osgoi'r Drenwydd neu eraill sy'n dangos yn benodol ym mha ffordd y maent wedi cyfrannu at leihad yn y defnydd o geir preifat ar y rhwydwaith cyfan, yn hytrach nag adrannau penodol.**

Rwy'n amgáu copi o Adroddiad Gwerthuso Prosiect Ar Ôl Agor Ffordd Osgoi'r Drenwydd (POPE) – Blwyddyn ar ôl Agor. Mae'r adroddiad hwn yn nodi i ba raddau y mae canlyniadau disgwyledig y cynllun wedi cael eu gwireddu. Mae Adran 5.9 Effeithiau ar bob teithiwr: cerddwyr, beicwyr, marchogion a theithiwr cerbydau (Tudalennau 51 i 55) yn nodi bod gweithredu'r Cynllun wedi arwain at lai o draffig ar hyd yr A483 / A489 presennol, gyda thraffig strategol yn defnyddio'r ffordd osgoi. Mae hyn wedi cael effaith fuddiol ar drigolion y Drenwydd drwy gwtogi ar wahanu ardaloedd o bobtu'r ffordd a gwella diogelwch ar y ffordd. Yn ogystal, mae wedi rhoi cyfle i Gyngor Sir Powys ddatblygu a chyflwyno cynlluniau Teithio Llesol yn y Drenwydd, sydd wedi annog cerdded a beicio ledled y dref a lleihau'r defnydd o geir preifat ymhellach.

Nodir sawl enghraifft o'r cynlluniau a weithredwyd ac sydd ar y gweill drwy gyllid Llywodraeth Cymru yn y POPE (tudalen 54 a 55). Gweler hefyd y dolenni isod:

[Gwaith i ddechrau ar gam nesaf Llwybr Teithio Llesol Treowen - Cyngor Sir Powys](#) (Ionawr 2025)

[Sicrwydd cyllid ar gyfer gwella teithio llesol yn y Drenwydd yn y dyfodol - All About Newtown](#) (Gorffennaf 2022)

[Gwelliannau Teithio Llesol i'r Drenwydd | Diogelwch Ffyrdd Cymru](#) (Ionawr 2021)

Un o brif amcanion Ffordd Osgoi'r Drenwydd oedd cael gwared ar draffig trwodd a defnydd amhriodol o ffyrdd lleol fel Heol Treowen a Plantation Lane. Gyda hyn wedi ei gyflawni drwy adeiladu'r ffordd osgoi, mae diogelwch i drigolion lleol, ac yn arbennig i blant ysgol sy'n mynychu Ysgolion Treowen a Chedewain wedi gwella'n sylweddol. Yn ogystal, mae hyn hefyd wedi hwyluso cyfleoedd gwych i weithredu cynlluniau teithio llesol gan ganiatáu i breswylwyr, gan gynnwys rhieni a phlant, ddewis cerdded a beicio i'r ysgol yn hytrach na defnyddio eu ceir preifat.

Yn yr un modd, fel rhan o'r Gwelliannau i'r A55 rhwng Abergwyngregyn a Thai'r Meibion, adeiladwyd llwybr teithio llesol 3.6km o hyd rhwng Cyffordd 12 a 13 a gwelliannau i 800 metr o lwybr aml-ddefnyddiwr ochr yn ochr â'r A55 i annog cerdded a beicio, a'i gwneud yn haws ac yn fwy diogel gwneud hynny. Mae hyn wedi arwain at gynnydd sylweddol (tua deg gwaith yn fwy) yn nifer y cerddwyr a'r beicwyr sy'n defnyddio'r llwybr hwn (gweler ffigurau cymharu cyn ac ar ôl y gwaith adeiladu yn Atodiad A) gan ddangos ei lwyddiant o ran denu pobl a rhoi dewisiadau iddynt ddefnyddio mathau cynaliadwy o drafnidiaeth yn hytrach na'u ceir preifat.

**15. A allech egluro a yw'r targed o gael gostyngiad o 10% mewn milltiroedd car y pen erbyn 2030, fel y nodir yng Nghynllun Sero Net 2021, yn bolisi Llywodraeth Cymru o hyd a sut y mae Llywodraeth Cymru yn mynd ar drywydd y targed hwn?**

Mae'r gostyngiad o 10% mewn milltiroedd car y pen yn parhau i fod yn bolisi sy'n adlewyrchu'r blaenoriaethau a nodir yn Llwybr Newydd a'r rôl y mae'r galw am drafnidiaeth yn ei chwarae wrth ddatgarboneiddio trafnidiaeth. Roedd ceir a thacsis yn cyfrif am 23.0bn km yn 2023, cynnydd o'i gymharu â 2022, ond sy'n dal yn is na'r lefelau cyn y pandemig (2019) o 24.0bn km. Rydym yn mynd ar drywydd y targed hwn drwy fuddsoddi mewn trafnidiaeth gyhoeddus a chynlluniau teithio llesol, gan ddarparu dewis deniadol arall yn lle teithio mewn car. Rydym hefyd yn cefnogi'r rhai sydd am weithio o bell drwy fuddsoddi mewn cysylltedd digidol. Cyfartaledd km car y pen oedd 7,269 yn 2023, o'i gymharu â 7,585 yn 2019, gostyngiad o 4%.

**16. A allwch roi rhagor o fanylion am sut yr ydych yn bwriadu cefnogi awdurdodau lleol Cymru i ymdrin â'r mater hwn? A allwch chi hefyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y graddau y mae'r mater hwn yn gysylltiedig â materion ehangach, megis draeniau heb eu mabwysiadu a mabwysiadu asedau cymunedol eraill?**

Ar gyfer ffyrdd presennol, mae cynlluniau ffyrdd heb eu mabwysiadu 2024/25 yn mynd rhagddynt yn dda. Cyfanswm y rhaglen eleni yw £982 mil. Roedd hyn yn cynnwys cyllid i Bowys, Sir Benfro, Merthyr, Sir Ddinbych, Ceredigion, Caerffili, Rhondda Cynon Taf, Gwynedd a Chaerfyrddin. Y bwriad yw darparu cyllid tebyg ar gyfer 2025/26 i awdurdodau lleol ledled Cymru. Er mwyn cynyddu nifer y ffyrdd ystâd newydd a gaiff eu mabwysiadu, mae set o Safonau Cyffredin a Chanllaw Arferion Da wedi'u mabwysiadu ledled Cymru gan bob awdurdod lleol, Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr a'r Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi.

Byddai angen i unrhyw gynllun a fydd yn cael ei fabwysiadu gynnwys gwaith draenio prifffyrdd a gallai hyn olygu bod angen systemau draenio cynaliadwy (SuDS), yn dibynnu ar statws a chyflwr presennol y ffordd a sut mae'r Corff Cymeradwyo SuDS (SAB), ar y cyd â'u cydweithwyr yn Adran Prifffyrdd y Cyngor, yn dehongli'r sefyllfa.

Mae gan Gymru ddeddfwriaeth SuDS statudol. Mae'r gofyniad am gymeradwyaeth SAB yn cael ei sbarduno gan feini prawf penodol fel yr ardal a'r math o ddŵr ffo o fewn safle sydd i'w ddatblygu ac mae gan bob awdurdod unedol yng Nghymru SAB. Mae cymeradwyaeth SAB yn annibynnol ar gymeradwyaeth gynllunio ond mae'n yn debyg iddi ac weithiau mae ei hangen hyd yn oed os nad yw cynllunio yn angenrheidiol.

Mae'r ddeddfwriaeth hon yn diogelu datblygiadau newydd yng Nghymru rhag newid hinsawdd ac mae hefyd yn lleihau llwythi llygredd o brifffyrdd, problem sy'n cael ei chydabod fwyfwy gan sefydliadau ymchwil a'r diwydiant prifffyrdd.

## **Teithio Llesol**

**17. Pa fesurau sy'n cael eu cyflwyno i sicrhau bod anghenion pobl anabl yn cael eu hystyried yn llawn wrth gynllunio a dylunio seilwaith teithio llesol?**

Mae creu strydoedd mwy diogel i bawb yn flaenoriaeth allweddol wrth gynllunio a dylunio seilwaith ar gyfer teithio ar droed, ar olwyn neu ar feic.

Mae Canllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol eisoes yn anelu at ddarparu dyluniad cynhwysol a hygyrch ac yn nodi'r gofyniad i ymgysylltu â phobl â nodweddion gwarchodedig, a'u hystyried. Mae tîm dylunio Trafnidiaeth Cymru yn dechrau gweithio i adolygu Canllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol a'u diweddarau, gyda phwyslais hyd yn oed yn gryfach ar ddylunio cynhwysol, i sicrhau bod y canllawiau'n parhau i adlewyrchu'r arferion gorau, y ddeddfwriaeth a'r dechnoleg ddiweddaraf gyfredol. Byddwn yn sicrhau bod ymarferwyr ac arweinwyr yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y newidiadau a bod rhannu'r wybodaeth hon yn rhan o gwmpas yr Academi Teithio Llesol. Fel rhan o'i gylch gwaith, bydd tîm yr Hyb yn hwyluso rhannu arloesedd ac arferion gorau ar draws pob awdurdod lleol a phartneriaid cyflawni i wella swyddogaeth, diogelwch, hygyrchedd, ansawdd a gwerth pob ymyrraeth.

Fel rhan o raglen yr Academi, cynhaliodd Trafnidiaeth Cymru ddiwrnod hyfforddi ym mis Tachwedd 2024 ar gyfer swyddogion awdurdodau lleol gyda gweithdai penodol ar ddylunio (gan dynnu sylw at ddylunio cynhwysol) ac ymgysylltu (gan gynnwys ymgysylltu â'r rheini sydd â nodweddion gwarchodedig, neu grwpiau sy'n cynrychioli defnyddwyr o'r fath). Yn y digwyddiad rhoddodd yr RNIB gyflwyniad i swyddogion yr awdurdod lleol a chynnig profiad realiti rhithwir i'w helpu i ddeall yr heriau sy'n wynebu pobl ag amhariad ar eu golwg. Bydd rhaglen yr Academi yn parhau i ddarparu hyfforddiant i awdurdodau lleol drwy gydol y flwyddyn nesaf.

Ailddechreuodd is-grŵp Teithio Llesol cynhwysol y Bwrdd Teithio Llesol ei waith a chwrdd ar ei ffurf newydd am y tro cyntaf ar 12 Tachwedd 2024. Mae'r grŵp yn cynnwys amrywiaeth o randdeiliaid sy'n cynrychioli pobl anabl. Bydd y grŵp yn parhau i gynorthwyo'r Bwrdd i gefnogi gweithrediad effeithiol Deddf Teithio Llesol (Cymru) (2013), Strategaeth Trafnidiaeth Cymru (2021) a sicrhau bod gofynion Deddf Cydraddoldeb (2010) yn cael eu bodloni.

Mae angen i gynlluniau sy'n cael cyllid Llywodraeth Cymru ddarparu tystiolaeth eu bod wedi cynnwys rhanddeiliaid perthnasol wrth ddatblygu eu cynlluniau. Mae'r [canllawiau ymgeisio](#) ar gyfer y Gronfa Teithio Llesol yn ei gwneud yn glir bod yn rhaid ymgysylltu â defnyddwyr a grwpiau â nodweddion gwarchodedig wrth ddatblygu prosiectau, sy'n cynnwys anghenion pobl anabl.

Er mwyn sicrhau bod dyletswyddau a gyflawnir yn unol â'r Ddeddf Teithio Llesol yn cydymffurfio â rhai'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010), rhaid cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar bob cynllun a ariennir drwy'r Gronfa Teithio Llesol a'r Grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau. Dylid lliniaru unrhyw effeithiau negyddol ar gydraddoldeb a ragwelir. O dan y Ddeddf Cydraddoldeb, mae dyletswydd ar awdurdodau'r sector cyhoeddus i wneud addasiadau rhesymol i'r amgylchedd adeiledig i sicrhau bod dyluniad seilwaith newydd yn hygyrch i bawb. Mae'r gofyniad am ddylunio cynhwysol yn berthnasol i gerddwyr a beicwyr.

Mae gofyniad gorfodol yng nghanllawiau'r Gronfa Teithio Llesol 2025-26 a chanllawiau'r rhaglen Llwybrau Diogel mewn Cymunedau i Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb gael eu cyflawni fel rhan o'r broses ymgeisio. Mae gofynion gorfodol hefyd ar waith ar gyfer monitro a gwerthuso cynlluniau yn ogystal â chynlluniau ymgysylltu a chynlluniau ymgysylltu penodol ar gyfer y cynllun, a bydd arfarnwyr yn gallu diystyru cynlluniau yn awtomatig os na ddarperir tystiolaeth ddigonol, gan gynnwys ymgysylltu â grwpiau â nodweddion gwarchodedig.

Mae Trafnidiaeth Cymru hefyd wedi cynnal prosiect peilot i adolygu sampl o brosiectau'r Gronfa Teithio Llesol gyda'r nod o nodi unrhyw faterion mynediad a chynhwysiant cyffredin y gellir eu rhannu ag awdurdodau lleol i lywio dyluniadau'r cynllun. Mae allbynnau lefel uchel y

prosiect hwnnw wedi'u rhannu ag awdurdodau lleol, gan dynnu sylw at themâu allweddol sy'n codi ar gyfer gwahanol fathau o seilwaith a sut maent yn effeithio ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig. Bydd gwaith pellach ar wersi a ddysgwyd yn llywio dulliau gweithredu yn y dyfodol. Rhoddwyd adborth penodol i'r cynllun hefyd i'r awdurdodau lleol hynny a gyflwynodd gynlluniau i'w hadolygu, fel y gallent ystyried hynny wrth ddatblygu eu cynigion.

#### **18. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn delio â'r pryderon diogelwch sy'n gysylltiedig â'r defnydd o e-feiciau pwerus ar lwybrau teithio llesol?**

Mae'r pryderon diogelwch sy'n gysylltiedig ag e-feiciau pwerus anghyfreithlon heb unrhyw gyfyngiadau cyflymder, ar lwybrau teithio llesol, yn real ac yn ddilys, yn enwedig i'n defnyddwyr mwyaf agored i niwed. Fodd bynnag, mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng beiciau trydan cyfreithiol â phedalau a beiciau trydan pwerus anghyfreithlon.

Mae defnyddio e-feiciau pwerus anghyfreithlon yn fater sy'n ymwneud â gorfodi'r gyfraith. Mae sicrhau cydymffurfiaeth â safonau cyfreithiol a mynd i'r afael â'r camddefnydd a wneir o'r cerbydau hyn ar lwybrau teithio llesol yn dod o dan awdurdodaeth yr heddlu. Rwy'n bwriadu trafod y mater hwn mewn cyfarfod gyda'r heddlu i ddeall maint y mater a chytuno ar gamau gweithredu.

Gellir defnyddio beiciau trydan cyfreithiol â phedalau, sydd wedi'u cyfyngu i gyflymder o 15.5mya, yn ddiogel ar lwybrau beicio a llwybrau cyd-ddefnyddio a gallant fod yn offeryn hanfodol i hyrwyddo beicio cynhwysol, gan gynnig manteision corfforol, cymdeithasol a llesiant i grŵp amrywiol o feicwyr.

Mae e-feiciau yn gwneud beicio'n hygyrch i bobl hŷn, pobl anabl, pobl â chyflyrau iechyd hirdymor a'r rhai sy'n gwella o anafiadau. I unigolion â phroblemau symudedd, mae e-feiciau yn rhoi ymdeimlad o ryddid ac annibyniaeth, gan wneud beicio'n fwy hygyrch. Gellir gweld manteision e-feiciau i fywydau pobl drwy waith pwysig sefydliadau beicio cynhwysol fel Pedal Power yng Nghaerdydd, BikeAbility yn Abertawe, neu Beics Antur yng Nghaernarfon.

#### **Deddfwriaeth**

#### **19. A allwch ddiweddarau'r Pwyllgor ar ddatblygiad y Bil drafft a rhoi llinell amser ar gyfer ymgynghori arno? A allwch chi hefyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd diwygiadau anneddfwriaethol mewn perthynas â'r sector hwn?**

Bydd y Prif Weinidog yn cyhoeddi'r flaenraglen o ddeddfwriaeth ar gyfer blwyddyn olaf y Senedd hon cyn toriad yr haf. Mae swyddogion yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid ar ddatblygu safonau a phecyn hyfforddi ar gyfer y sector tacsis a cherbydau hurio preifat. Mae'n debygol y byddant ar gael i'w defnyddio'n wirfoddol yn gynnar yn 2026 cyn eu gwneud yn orfodol yn nes ymlaen.

Yn gywir,



**Ken Skates AS**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddrafnidiaeth a Gogledd Cymru  
Cabinet Secretary for Transport and North Wales

Atodiad A: Cymhariaeth o ddata cyfrif cerdded a beicio cyn ac ar ôl gwella'r A55 rhwng Abergwyngregyn a Thai'r Meibion

| Gwella'r A55 rhwng Aber a Thai'r Meibion: Cymhariaeth o ddata cyfrif Cerdded a Beicio dwyffordd 24 awr |        |          |        |        |        |        |        |         |         |        |         |         |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------|----------|--------|--------|--------|--------|--------|---------|---------|--------|---------|---------|
| Dyddiad/Adran                                                                                          | Ion-22 | Chwef-22 | Maw-22 | Ebr-22 | Mai-22 | Meh-22 | Gor-22 | Awst-22 | Medi-22 | Hyd-22 | Tach-22 | Rhag-22 |
| Ffordd Rufeinig NCR 5 drwy Grymlyn.                                                                    | 268    | 184      | 447    | 514    | 782    | 815    | 909    | 800     | 550     | 339    | 226     | 134     |
| Dyddiad/Adran                                                                                          | Ion-24 | Chwef-24 | Maw-24 | Ebr-24 | Mai-24 | Meh-24 | Gor-24 | Awst-24 | Medi-24 | Hyd-24 | Tach-24 | Rhag-24 |
| Llwybr Newydd ar gyfer Defnyddwyr Heb Gerbydau Modur                                                   | 1884   | 2359     | 2841   | 3018   | 4406   | 6967   | 4287   | 4489    | 3074    | 2857   | 2340    | 4794    |
| Tynnydd rhwng 2022 a 2024                                                                              | 1616   | 2175     | 2394   | 2504   | 3624   | 6152   | 3378   | 3689    | 2524    | 2518   | 2114    | 4660    |

Ein cyf/Our ref: NICW/25/Review

Rebecca Evans MS  
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning  
[Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales](mailto:Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales)

24 February 2025

Dear Rebecca,

We write in response to the recent review of the National Infrastructure Commission for Wales (NICW).

We were pleased to take part in the process and to read the views of the independent assessors. We also appreciate the responses to the external stakeholder questionnaire where the majority of those questioned scored NICW highly in terms of our remit, work programme and ways of working.

We agree with the observations made about NICW and have started work on an action plan, supported by the Secretariat, to ensure that the recommendations are implemented.

### **Strategy, Performance Reporting and Lessons Learnt**

These three observations relate to NICW's strategic direction and its ability to monitor progress and make continual improvements. As the current Commission has less than a year to run, we feel that our experiences over the last three years can be used to inform the direction of the next Commission following the Senedd elections in May 2026.

We have started to procure research to help us conduct a short form Infrastructure Assessment for Wales. The results of this research will be published next spring. We believe this will not only aid NICW in thinking about its future work programme, but also support the Welsh Government in considering whether any changes are needed for our remit.

We are also discussing how our legacy can be used to support work over the next 18 months, and the best ways that our learning can be used to support future Commissioners.

### **Risk Management, Board Papers and Terms of Reference**

These observations were all very helpful for improving the governance arrangements around NICW. We have implemented them in full for our February meeting.

## **Commission Status (including funding)**

The review report states there is likely to be limited value in recommending significant changes to NICW's status as a non-statutory body, as the Commission is delivering its outputs in accordance with the remit letter.

NICW currently operates in a very flexible way whilst still being a transparent organisation which engages with its stakeholders and fulfils its remit set out by the Welsh Government. We see no reason to change NICW into a statutory body.

NICW recently received early assurances of funding for 2025/26 which means that we can begin planning our projects in good time. We request that this good practice is continued in future years to enable NICW to plan and procure work in a timely manner.

## **Commission Remit and Objectives**

The review report concludes that the remit appears to be focussed appropriately which supports the delivery of agreed objectives.

We agree that the remit has been tailored in such a way that NICW has clear tasks to undertake on behalf of the Welsh Government, but also that it may explore complementary aspects of infrastructure.

In this term, NICW has been able to explore the issues of skills, and to implement futures thinking in our work. These are both important aspects of infrastructure that would not be possible to consider in a very tightly focused sectoral approach.

Our recent work on transport futures has given us the opportunity to work with stakeholders from across the transport sector using a very long-time horizon. We also used a futures thinking approach in our report on reducing the impact of flooding in Wales for 2050. The flexibility of our approach ensures that we can take advantage of different ways of tools or ways of thinking with immediate effect, and to the benefit of our recommendations on infrastructure.

## **Commissioner Term of Appointment**

The review sees the merit in having Commissioners staying on for two terms but is generally inconclusive with regards to the length of these terms, given the variability elsewhere.

We see the merit in having a 'rolling succession' of Commissioners where some experience stays within NICW after a set of Commissioners depart. For example, we have one Commissioner at present who was a member of the previous Commission. The move to a 4-year election cycle from the next Senedd term makes it reasonable to suggest moving to a 4 years + 4 years term of office for Commissioners, supported by enhanced performance management arrangements.



## **Timeframes for Welsh Government Responses to Commission Reports**

The review report is inconclusive on the best timeframe for a response from the Welsh Government on NICW reports. It suggests that deadlines be agreed between the relevant Welsh Government teams beforehand.


We consider that responding in a timely manner is as important as the appetite for the Welsh Government for challenge from our recommendations. Mandating a shorter or longer timeframe for response would be secondary to ensuring a perception across Welsh Government that our contributions are helpful and an important part of a process intended to support delivery of good quality, resilient infrastructure in Wales.

## **National Infrastructure Assessment**

We are about to commence work on a short form National Infrastructure Assessment for Wales which should assist in shaping the NICW remit for the next Senedd term. This initial work may help ascertain whether a 'full' assessment, as stated in the original NICW mandate, is required; or whether smaller targeted pieces of work are a more flexible and responsive way to meet the need.

Thank you again for involving NICW in this review. We would be glad to meet with you to update you on our work programme or to provide any further detail on our response to the evaluation. We look forward to receiving your formal response to the review and the future of NICW in due course.

Yours sincerely,



Dr David Clubb  
Cadeirydd/Chair



Dr Jenifer Baxter  
Dirprwy Gadeirydd/Deputy Chair

cc. Chair of Climate Change, Economy and Infrastructure Committee

Huw Irranca-Davies AS/MS  
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros  
Newid Hinsawdd a Materion Gwledig  
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate  
Change and Rural Affairs



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Ein cyf: POHID/PO/0093/25

Mike Hedges MS  
Cadeirydd  
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Llŷr Gruffydd MS  
Cadeirydd  
Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN

27 Chwefror 2025

Annwyl Mike, Llŷr,

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-Sefydliadol i'ch hysbysu o gyfarfod o'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Sero-Net, Ynni a Newid Hinsawdd, a gynhelir ar 6 Mawrth 2025 ym Melffast. Rwy'n rhagweld y bydd y drafodaeth yn canolbwyntio ar biomethan, ynni cymunedol a'r Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU.

Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ar ôl y cyfarfod.

Yn gywir,

**Huw Irranca-Davies AS/MS**  
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd  
a Materion Gwledig  
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru)  
[Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales](mailto:Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 129**  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Huw Irranca-Davies AS/MS  
Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid  
Hinsawdd a Materion Gwledig  
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate  
Change & Rural Affairs



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: PO/HIDCC/0073/25

Mike Hedges AS  
Cadeirydd  
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN

3 Mawrth 2025

Annwyl Mike,

Rwy'n ysgrifennu atoch yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol i roi gwybod i chi y bydd cyfarfod nesaf y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn cael ei gynnal ar 18 Tachwedd. Byddaf yn cynrychioli Llywodraeth Cymru.

Mae disgwyl i'r cyfarfod ganolbwyntio ar yr economi gylchol, clefydau anifeiliaid, trafodaeth ar gytundeb ieuchydol a ffytoieuchydol posibl rhwng y DU a'r UE, y Model Gweithredu Targed Ffiniau, ac effaith y Ddeddf Farchnad Fewnol ar sector EFRA. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y trafodaethau, a bydd hysbysiad yn cael ei gyhoeddi ar ôl y cyfarfod.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn hefyd at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,

**Huw Irranca-Davies AS/MS**

Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig  
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru)  
[Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@gov.cymru](mailto:Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@gov.cymru)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi wrth ymateb.

**Tudalen y pecyn 130**

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon